



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

R H A G L E N  
**GWOBRAU**

10 TACHWEDD 2021



Coleg Nyrso Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales



RCNWales



@RCNWales



rcn\_wales

# EIN NODDWYR



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



Cymru Wales



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



**CLEARTECH**live  
Creative Events



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg  
University Health Board



**frontiermedical**  
group



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board

Sponsored by



LIVERPOOL VICTORIA

Car • Home • Travel • Pet  
[LV.com/RCN](http://LV.com/RCN)

**NS** | STUDENT

malinko



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

RCNi+plus



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
ALUMNI NETWORK



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe  
Swansea Bay University  
Health Board



tŷ hafan

the hospice for children in Wales  
yr hosbis i blant yng Nghymru



University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru



Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David

200  
1822 - 2022



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre  
Velindre University  
NHS Trust



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
NHS Trust



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd  
Arbenigol Cymru (PGIAC)  
Welsh Health Specialised  
Services Committee (WHSSC)



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

# DIOLCH GAN RCN CYMRU

Heb ein noddwyr ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal y digwyddiad hwn a hoffai'r Coleg Nyrsio Brenhinol yng Nghymru ddiolch o galon i bob un o'n noddwyr am ein helpu i ddatlu'r gorau o nyrsio yng Nghymru. Yn sgil llwyddiant y Gwobrau, lansjodd RCN Cymru Rwydwaith Cyn-enillwyr Nyrs y Flwyddyn RCN yng Nghymru yn swyddogol yn 2017. Mae'r Rhwydwaith Cyn-enillwyr yn cynnig llwybr clir o gyfleoedd datblygiad personol a gyrfaol ac yn rhoi sylw i'r rheini sydd wedi cyrraedd rownd deffynol y gwobrau. Mae'n creu grŵp hynod frwd o arweinwyr arloesol sy'n hyrwyddo nyrsio yng Nghymru yn genedlaethol a rhyngwladol.

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch [RCNWalesAlumni@rcn.org.uk](mailto:RCNWalesAlumni@rcn.org.uk)

Bydd Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Cymru 2022 yn cael eu lansio ym mis Ebrill. Rydym nawr yn trefnu i gynnal y seremoni wobrwyo yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar ddydd Mercher 9 Tachwedd 2022. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod yn noddwr cysylltwch â ni drwy e-bost yn [nurseoftheyearawards@rcn.org.uk](mailto:nurseoftheyearawards@rcn.org.uk)

## CYNNWYS

<b>Rhagair</b>	<b>4</b>
<b>Meistr y Ddefod</b>	<b>5</b>
<b>Adloniant</b>	<b>6</b>
<b>Amser i Fyfyrio</b>	<b>7</b>
<b>Gwobr Cyflawniad Oes 2021</b>	<b>8-9</b>
<b>Noddwyr Ein Gwobrau</b>	<b>10-15</b>
<b>Cyfarfod Enwebeion y Gwobrau</b>	
Gwobr Plant a Bydwreigiaeth	16
Gwobr Nyrsio Cymunedol	17
Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth	18
Gwobr Anabledau Dysgu ac Iechyd Meddwl	19
Gwobr Nyrsio Gofal Sylfaenol	20
Gwobr Nyrsio Pediatrig Suzanne Goodall	21
Gwobr Nyrsio Uwch ac Arbenigol	22
Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd	23
Gwobr Cefnogi Addysg a Dysgu mewn Ymarfer	24
Gwobr Addysg Nyrsio	25
Gwobr Myfyriwr Nyrsio	26
Gwobr Nyrs Gofrestredig (Oedolion)	27
Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru	28
Gwobr Arloesi a Digididdio mewn Nyrsio	29
Gwobr Cefnogi Gwelliant Trwy Ymchwil	30
Gwobr Gofal Unigolion Hŷn	31
<b>Gwobr Nyrs y Flwyddyn Cymru 2021</b>	<b>32-33</b>
<b>Llongyfarchiadau</b>	<b>34-35</b>

# RHAGAIR



Coleg Nyrsio Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales

## RICHARD JONES MBE

Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru

### Hon yw'r nawfed gwaith i ni gyflwyno Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN yng Nghymru.

Braint i mi yw croesawu pawb i'r digwyddiad hwn, sy'n noson o ddathlu'r gweithlu nyrsio. Rydym yn cymeradwyo holl waith caled, arloesedd ac ymroddiad nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd ledled Cymru.

Nid oes amheuaeth y bu'r ddwy flynedd ddiwethaf y rhai mwyaf heriol ar gyfer nyrsio ac iechyd, ond roeddent yn flynyddoedd lle gwelsom y gweithlu nyrsio yn tynnu ynghyd i gefnogi cleifion a'i gilydd drwy'r pandemig COVID-19. Nid yn unig gofalu am y rheini sydd mewn angen yn yr amgylchiadau mwyaf anodd, ond hefyd bod y grym ar gyfer cyflwyno'r rhaglen frechu.

Mae'r ymrwymiad i ofal cleifion wedi bod yn ddiwyro ac mae aelodau RCN hefyd wedi canfod y cryfder i ddod ynghyd a chynnal ymgyrch tâl cadarn i gael tâl teg ar gyfer nyrsio.

Mae ein gwaith yn parhau yn y frwydr am dâl teg a materion yn ymwneud â gofal diogel ac effeithiol wrth i ni ehangu ein crwsâd i ymestyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i bob maes clinigol. Unwaith eto mae Cymru ar flaen y gad o ran arloesedd gyda gwledydd eraill yn ceisio dilyn ein harweiniad.

Mae nyrsio yn gweithio i ddarparu gofal o ansawdd uchel, diogel ac effeithiol a'n nod yn y pen draw yw gwella bywydau ein cleifion a'n

cleientiaid. Rydym yn ymdrechu i helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol, byw bywydau iach a chael mynediad at wasanaethau arbenigol ar gyfer problemau mwy cymhleth. Mae effaith Covid-19 yn golygu bod gan nyrsio ran fwy fyth i'w chwarae ym maes gofal cleifion a gwyddom fod y gweithlu yng Nghymru wedi bod, ac yn parhau i fod, yn gefnogaeth ddiwyro i bobl yng Nghymru.

Mae'r gwobrau hyn ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd, a fydd yn cael eu cydnabod am eu hymroddiad a'u dyfalbarhad. Dyma'r bobl sydd, mewn cyfnod anodd, â'r amser i ganolbwyntio ar gleifion, i ofalu, i ddod o hyd i atebion i broblemau a dangos eu hymroddiad i'r proffesiwn nyrsio a gofal iechyd yng Nghymru. Mae digwyddiad heno yn dangos cwmpas ac amrywiaeth y gwaith y mae nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ei wneud i gefnogi ein cleifion.

Llongyfarchiadau i bob un sydd yn y rownd derfynol heno. Rydych chi'n sêr disglair ac rwy'n canmol eich angerdd a'ch ymroddiad i ofal cleifion.

Hoffwn fynegi fy niolch diffuant i bob un o'n noddwyr gwobrau am eu haelioni a'u cefnogaeth barhaus. Ni fyddai'r noson hon mor wych heboch chi.

**Gobeithio y caiff pob un ohonoch noson fendigedig!**

Pencadlys RCN Cymru:  
Tŷ Maeth, King George V Drive East, Caerdydd CF14 4XZ

Swyddfa Gogledd Cymru RCN:  
Canolfan Fusnes Plas Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn LL29 8BF



# MEISTR Y DDEFOD



JASON MOHAMMAD

**Mae Jason Mohammad yn un o ddarlledwyr mwyaf adnabyddus yn DU. Gellir gweld ei wyneb a chlywed ei lais yn ddyddiol ar draws rhwydweithiau'r BBC - ar deledu, radio a phodlediadau.**

Mae'r cyflwynydd teledu a anwyd yng Nghaerdydd yn cyflwyno'r rhaglen canlynjadau a thrafod pêl-droed Final Score ar BBC One, mae wedi angori nifer o raglenni Match of the Day 2 ac wedi cyflwyno elfen ochr y cae y BBC yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd FIFA 2014 ym Mrasil a 2018 yn Rwsia.

Mae Jason hefyd yn un o gyflwynwyr darllediadau Gemau Olympaidd BBC Sport - ac wedi gweithio ar dair o Gemau Olympaidd yr Haf - yn Llundain, Rio a Tokyo. Roedd hefyd yn aelod o dîm Gemau Olympaidd y Gaeaf Sochi yn 2014 - yn cyflwyno ac yn adrodd o nifer o leoliadau gan gynnwys gêm hoci iâ enwog rhwng Rwsia ac UDA.

Mae ei acen Gymreig hyfryd a'i arddull hamddenol a gwybodus wedi denu llawer o edmygwyr iddo yn uchel yn y BBC. Bellach mae Jason yn un o'r prif gyflwynwyr ar un o orsafoedd cerddoriaeth mwyaf y byd - BBC Radio 2 - yn chwarae caneuon gan y sêr mwyaf.

Mae wedi cyfweld enwogion o fri sy'n cynnwys Al Pacino, y Fonesig Shirley Bassey, Noel Gallagher a Del Boy ei hun - Syr David Jason!

Mae Jason yr un mor gartrefol yn siarad am bêl-droed, rygbi'r undeb, cerddoriaeth, teledu a ffilmiau a hefyd yn siaradwr cyhoeddus gwych ac yn ddelfrydol ar gyfer seremonïau gwobrwyo, nosweithiau corfforaethol a chynadleddau. Mae wedi cynnal digwyddiadau ar gyfer sefydliadau megis Mercedes-Benz, Maserati, Celtic Manor, UEFA a HP.

Mae'n wneuthurwr ffilmiau dogfen toreithiog ac wedi gwneud rhaglenni ym Mecca a'r Aifft. Yn ddiweddar treuliodd amser yn edrych ar dlodi ac amrywiaeth a chafodd sylw gan lawer o bapurau newydd. Mae Jason yn angerddol ynglŷn â chydarddebed a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

Yn anffodus, profodd Jason hiliaeth a rhagfarn yn ystod y 1980au ac mae'n siarad yn huawdl am ei flynyddoedd cynnar a'i fagwraeth yn ei areithiau i gynadleddau ar amrywiaeth. Mae'n stori nad ydych chi am ei cholli.

# ADLONIAN

## ONLY BOYS ALOUD.



**ALoud** Trwy ganu mewn grŵp, mae Elusen Aloud yn newid bywydau pobl ifanc ledled Cymru. Mae ein gweithgareddau'n cynnig cyfleoedd unigryw ar gyfer rhai yn eu harddegau, gan roi'r hunanhyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wireddu eu potensial.

Wedi'i sefydlu yn 2012, mae'r elusen yn cyflwyno ei gweithgarwch craidd drwy Only Boys Aloud: côr bechgyn sy'n wrthgyffur i'r lefelau mynych o uchelgais isel sy'n effeithio ar ddynion Cymru. Trwy weithgareddau cerddoriaeth a thîm mae OBA yn cynyddu hunan-barch a chymhelliant, gan adeiladu cymuned gynhwysol a brawdgarwch. Gyda 240 o fechgyn ar draws 12 côr, bydd OBA yn cyfarfod yn wythnosol yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Elfen bwysig yw nad oes clyweliad na ffi i ymuno. Côr Cymru gyfan yw Côr Only Kids Aloud sy'n cynnwys 100 o ferched a bechgyn 8-11 oed. Cynhelir y côr yn flynyddol gan ddefnyddio model preswyl. Gan nad oes côr plant cenedlaethol yng Nghymru, mae Côr OKA yn rhoi cyfle i gantorion ifanc llawn dyhead ddisgleirio. Mae prosiectau allweddol eraill yn cynnwys Academi OBA (cwrs preswyl hŷn ar

gyfer 32 o aelodau mwyaf ymroddedig OBA sy'n dangos y potensial gorau), Aloud in the Classroom sy'n cyflwyno sesiynau mewn ysgolion cynradd, ac Aloud Girls - prosiect corawl peilot sy'n gweithio gyda menywod ifanc yn Ne Cymru.

Yn ystod y pandemig, mae'r elusen wedi datblygu dull hybrid ar gyfer pob agwedd ar ein gwaith: o gyflwyno rihysals a digwyddiadau wythnosol arlein i addasu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'n cefnogwyr ledled y byd. Mae'n bleser gan Only Boys Aloud rannu un o'n hoff berfformiadau fel rhan o'r dathliadau Gwobrau Nyrs y Flwyddyn 2021 RCN Cymru. Gobeithio y byddwch yn mwynhau.

I gefnogi Elusen Aloud ewch i'n gwefan [www.aloud.cymru](http://www.aloud.cymru) neu i'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

@thealoudcharity  
@onlyboysaloud

# AMSER I FYFYRIO

## ANRHYDEDD YW'R SWYDD YMA


Dechrau sifft y bore, heb wybod beth a ddaw,  
Heb eisiau dianc rhagddo, boed heulwen, gwynt neu law.  
Mynd ati i wisgo'r mwgwd yn y ffasiwn diweddaraf  
Ac felly'r llygaid disglair sy'n dangos dy wên hyfryd, braf.  
Mae'r sawl sydd yn ein gofal yn llawn gofid a phryder mawr  
A chithau'n eu hannog i rannu eu baich, a gwneud hynny'n awr.  
Gwrando ar eu hanesion a chlywed straeon eu hoes  
Eu cysuro, eu calonogi pan na all neb arall leddfu'r loes.  
Chi'n barod i fynd adref ar ddiwedd eich sifft hir,  
Ond yr hyn sydd ar eich meddwl yw'r claf yn ei unigrwydd clir.  
Anrhydedd yw'r swydd yma, ond swydd sy'n costio'n ddrud  
I fywydau ein cydweithwyr wedi i'r feirws eu cipio o'r byd.

Ydy, mae'r swydd yn anrhydedd...  
yn wylaidd a dirdynol i'r eithaf  
Ond yr hyn sy'n dorcalonnus ei weld,  
yw'r rhai sy'n ffarwelio... am y tro diwethaf

**Jo Edwards**

Nyrs Staff, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



  
ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

# GWOBR CYFLAWNIAD OES 2021

## GWOBR CYFLAWNIAD OES 2021

NODDIR GAN **FWRDD IECHYD PRIFYSGOL  
CWM TAF MORGANNWG**

Mae'r wobwr hon yn cydnabod Nyrs Gofrestredig eithriadol sydd wedi gwneud cyfraniad gydol oes i ymarfer nyrsio, gan arwain at etifeddiaeth o ganlyniadau sy'n well ac yn gynaliadwy i unigolion, cymunedau, a'r boblogaeth ehangach. Bydd enwebeion y wobwr hon hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad nyrsio fel proffesiwn a werthfawrogir gan gymdeithas.



### Meini Prawf ar gyfer y Wobwr:

Bydd yr enwebai llwyddiannus wedi gwneud cyfraniad oes parhaus i ddatblygiad sylweddol nyrsio ar lefel genedlaethol a/neu ryngwladol. Cydnabyddir y nyrs fuddugol fel:

- Rhywun sy'n gallu dangos hanes da o arweinyddiaeth flaengar, a bydd wedi ysbrydoli ymarfer nyrsio uwch
- Rhywun sy'n arbenigwr yn ei faes ac wedi cyflawni gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd gofal.

Enwebeion ar restr fer Gwobr 2021 yw:



### DEBORAH BURCHELL

Nyrs Arbenigol Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



### KAREN MILLS

Uwch Nyrs, Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



### SUSAN MOGFORD

Uwch Nyrs, Ward Uned Llawfeddygaeth Arhosiad Byr, Ysbyty Plant Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



### JUDY ROGERS

Cydlynnydd Bwydo Babanod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



### CAROLINE WHITTAKER RRC OStJ

Arweinydd Ansawdd, Iechyd Cyhoeddus Cymru



### LOUISE WILLIAMS

Cynghorydd Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## ENILLWYR BLAENOROL Y WOBR CYFLAWNIAD OES

**2013 Helen Bennett** Nyrs Bwrdd Clinigol, Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**2014 Daphne Meredith-Smith** Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**2015 Brenda Scourfield** Nyrs Iechyd Ysgol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**2016 Karen Logan OBE** Nyrs Ymgynghorol - Ymataliaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**2017 Tanya Strange MBE** Nyrs Ranbarthol, Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**2018 Professor Ruth Northway OBE, FRCN** Athro Nyrsio Anabledau Dysgu, Prifysgol De Cymru

**2019 Angela Haley** Uwch Nyrs, Gwasanaethau Anadlol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



# GWOBR CYFLAWNIAD OES 2021



**CAROLINE WHITTAKER  
RRC OSTJ**

Arweinydd Ansawdd,  
Iechyd Cyhoeddus Cymru



## **Mae Caroline Whittaker RRC OstJ wedi'i henwi fel enillydd y wobwr Cyflawniad Oes ar gyfer 2021!**

Mae Caroline yn nyrs ymroddedig sydd wedi cael gyrfa nodedig o fewn y lluoedd arfog yn ogystal ag Iechyd Cyhoeddus ac academia. Am y pedair blynedd diwethaf mae Caroline wedi gweithio o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi dangos ymrwymiad parhaus i ddatblygu maes nyrsio. Mae'n frwdfrydig iawn ac yn gefnogol i staff iau a myfyrwyr, a bydd yn darparu cefnogaeth ar draws pob disgyblaeth, nid dim ond nyrsio.

Mae gan Caroline gyfoeth o brofiad a gwybodaeth fel rheolwr nyrsio, darlithydd nyrsio ac arweinydd ym maes Ansawdd; mae wedi cyflwyno mewn Cynadleddau Iechyd Galwedigaethol yn Genedlaethol a Rhyngwladol (ac wedi cyhoeddi gwaith). Mae gan Caroline hanes da profedig ym maes academia ac wedi arwain datblygiad y Ddiploma mewn Iechyd Galwedigaethol, y gyntaf o'i math yng Nghymru ac sydd ar flaen y gad yn y DU.

Mae Caroline wedi gwasanaethu fel swyddog meddygol y fyddin mewn ymgyrchoedd ym Mosnia, Affganistan ac

Irac. Fel cydnabyddiaeth o'i sgiliau rheoli ac arweinyddiaeth a'i hymroddiad i'r agenda nyrsio, dyfarnwyd iddi glod y Groes Goch Frenhinol ac Urdd Sant Ioan.

O fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae Caroline yn hyrwyddo ac yn siapio sut y gallwn roi cydnabyddiaeth a chefnogaeth mewn cyflogaeth i gymuned y lluoedd arfog. Fel canlyniad uniongyrchol i hyn sicraodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wobwr Aur yn 2020.

### **Wrth sôn am wobwr Caroline, dywedodd Richard Jones MBE, Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru:**

*"Mae Caroline wedi cael gyrfa hynod amrywiol ac wedi dangos arweinyddiaeth ryfeddol mewn amryw o gyd-destunau yn rhai o'r lleoliadau cleifion mwyaf heriol yn rhyngwladol. Mae Caroline yn enghraifft eithriadol o reolwr nyrsio ac arweinydd sy'n mynd yr ail filltir gyda'i dyletswyddau, ac sydd ag ysgogiad ac angerdd a fydd yn eich syfrdanu. Mae'n rhyfeddol sut y mae Caroline wedi llwyddo i wasgu cymaint o brofiad a chyflawniad i un bywyd, mae'n ysbrydoliaeth ac yn enillydd teillwng y Wobwr Cyflawniad Oes, llongyfarchiadau Caroline"*



# NODDWYR EIN GWOBRAU

## GWOBWR PLANT A BYDWREIGIAETH

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIP BC) yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru ac mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbytai aciwt ar gyfer poblogaeth o tua 676,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru, yn ogystal â rhai rhannau o ganolbarth Cymru, Swydd Gaer a Swydd Amwythig. Mae'n cyflogi dros 17,500



aelod staff ac mae ganddo gyllideb o tua £1.9 biliwn. Mae BIP BC yn gweithredu tri ysbyty cyffredinol dosbarth, 18 ysbyty aciwt a chymunedol arall a dros 90 o ganolfannau iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith meddygfeydd teulu, a gwasanaethau'r GIG gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

## GWOBWR NYRSIO CYMUNEDOL

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, cyfleusterau gofal iechyd cymunedol ac yng nghartrefi'r cleifion eu hunain.



Mae staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig yn cyfrif am tua 32% o weithlu'r Bwrdd Iechyd ac maent yn rhan annatod mewn dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiad gofal iechyd cleifion ar bob lefel - o'r effaith y maent yn ei chael ar bolisi cenedlaethol ac addysg, i'r gofal y maent yn ei ddarparu wrth erchwyn y gwely ac, yn gynyddol, yng nghartrefi'r cleifion.

## GWOBWR GWELLA IECHYD UNIGOLION A'R BOBLOGAETH

NODDIR GAN  
IECHYD CYHOEDDUS CYMRU

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol yng Nghymru. Rydym yn rhan o'r GIG, ac yn darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus proffesiynol ac annibynnol gyda'r nod o sicrhau dyfodol iachach i Gymru. Gwnawn hyn drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau'r effaith orau posibl mewn gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru saith blaenoriaeth strategol:



- Dylanwadu ar benderfyniadau ehangach iechyd
- Gwella lles meddyliol a gwytnwch
- Hyrwyddo ymddygiadau iach
- Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf
- Amddiffyn y cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd
- Cefnogi datblygiad system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Adeiladu a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a lles leded Cymru

# NODDWYR EIN GWOBRAU

## GWOBWR ANABLEDDAU DYSGU AC IECHYD MEDDWL

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP AB) yn cwmpasu ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'n gwasanaethu poblogaeth a amcangyfrifir i fod dros 639,000, tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu modelau gofal newydd ac effeithiol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i ymateb i anghenion newidiol pobl leol. Ei gynllun uchelgeisiol yw darparu mwy o ofal yn agosach i gartrefi pobl, creu rhwydwaith o



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaeth mater o drefn a chanoli gwasanaethau gofal arbenigol a chritigol mewn un lle yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, a agorodd ym mis Tachwedd 2020.

Mae BIP AB wedi ennill enw da am fod yn sefydliad arloesol gyda gwerthoedd cryf o gefnogi a datblygu staff. Mae nyrsys a bydwagedd ar bob lefel yn cael eu hannog yn gadarnhaol a'u cefnogi i arddangos syniadau, gwasanaethau, technolegau a pholisïau da sy'n cefnogi arfer ac yn gwella gofal cleifion.

## GWOBWR NYRSIO GOFAL SYLFAENOL

NODDIR GAN  
BMA CYMRU WALES

BMA Cymru Wales yw cangen Gymru o Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA), sy'n gweithio i gynrychioli a thrafod ar ran yr holl feddygon ledled Cymru. Fel undeb llafur, mae'r BMA yn llais blaenllaw, yn hyrwyddo gofal iechyd rhagorol a phoblogaeth iach. Mae'r BMA yn sefydliad democrataidd ac yn un a arweinir gan aelodau, sy'n darparu



Cymru Wales

gwasanaethau a chefnogaeth unigol ragorol drwy gydol oes ei aelodau.

Mae'r BMA wedi ymrwymo i GIG sy'n parhau'n driw i'w egwyddorion sefydlu - bod yn gynhwysfawr, am ddim yn y man gofal a gyda mynediad cyfartal i bawb.

## GWOBWR NYRSIO PEDIATRIG SUZANNE GOODALL

NODDIR GAN  
Tŷ HAFAN

Credai Suzanne Goodall, sylfaenydd llawn ysbrydoliaeth Hosbis Plant Tŷ Hafan, y dylai'r gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd fod yn gyfannol ac yn canolbwyntio ar y teulu, ac ar gael pryd a ble mae ei angen fwyaf. Mae'n deyrnged barhaol i Suzanne bod yr athroniaeth hon yn parhau i greu'r gofal wedi'i deilwra a'r gefnogaeth o'r galon a ddarperir i bob plentyn a theulu y maent yn cwrdd â nhw fel bod pob bywyd yn cael ei fyw i'r eithaf.



Gobaith mawr Suzanne Goodall oedd y byddai'r dull hwn yn siapio gofal pob plentyn a theulu sydd angen y gefnogaeth hon. Heddiw, mae Tŷ Hafan yn gweithio i sicrhau bod hyn yn deyrnged barhaol i Suzanne, gan weithio nid yn unig o'u hosbis yn Sili, ond hefyd mewn cartrefi teuluoedd, mewn ysbytai, ac ar draws cymunedau.

Byddai'n destun balchder mawr i Suzanne wybod bod ei gweledigaeth yn parhau i ysbrydoli nid yn unig Tŷ Hafan, ond hefyd nyrsys ledled Cymru, i ddarparu gofal a chefnogaeth sy'n galluogi bywydau llawn a phrysur i gynifer o blant a theuluoedd â phosibl.



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
NURSE OF THE YEAR  
AWARDS

# NODDWYR EIN GWOBRAU

## GWOBWR NYRSIO UWCH AC ARBENIGOL

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop. Mae'n cyflogi ychydig o dan 7,000 o nyrsys, bydwagedd a gweithwyr cymorth nyrsio. Fe'i sefydlwyd yn 2009 ac mae'n darparu ystod o wasanaethau iechyd a lles, yn amrywio o ofal sylfaenol a chymunedol i wasanaethau aciwt ac arbenigol iawn, yn ogystal â bod â chyfrifoldeb am iechyd y boblogaeth yn ehangach. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled Cymru, ac yn aml y DU, gyda thriniaeth

arbenigol a gwasanaethau cymhleth fel niwrofeddygaeth a gwasanaethau y galon.

Mae ganddo gyllideb flynyddol o tua £1.4 biliwn ac mae'r mwyafrif helaeth ohoni'n cael ei gwario ar gostau staffio, offer, triniaethau a chyffuriau. Fel bwrdd iechyd addysgu mae ganddo ymrwymiad cryf i ymchwil a datblygu ac mae'n gweithio'n agos â phartneriaid addysg uwch lleol i sicrhau bod nyrsys a bydwagedd yn cael cyfleoedd datblygu sy'n eu helpu i wireddu eu potensial a gwella canlyniadau i gleifion.

## GWOBWR GWEITHIWR CYMORTH GOFAL IECHYD

NODDIR GAN  
BWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU (WHSSC)



Mae Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn falch o allu noddi'r Wobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd. Maent yn rhan hanfodol a gwerthfawr o'r gweithlu sy'n darparu gwasanaethau ac yn gofalu am gleifion. Mae WHSSC yn gyfrifol am gyd-gynllunio a chomisiynu ystod o wasanaethau arbenigol ac arbenigol iawn ar

ran y 7 bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Fel arfer mae gwasanaethau arbenigol yn gymhleth ac yn elfen gostus o ofal cleifion. Mae mwyafrif y gofal yn cael ei gomisiynu drwy'r GIG ac mae'n rhaid i rai pobl deithio y tu allan i Gymru i dderbyn eu gofal. Mae ganddo gyllideb o tua £700 miliwn y flwyddyn.

## GWOBWR CEFNOGI ADDYSG A DYSGU MEWN YMARFER

NODDIR AR Y CYD GAN  
BRIFYSGOL DE CYMRU A  
BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG



Mae Prifysgol De Cymru yn gyd-noddwr balch y wobwr hon gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gyda thua 1500 o fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth, mae'r brifysgol yn falch o'n poblogaeth myfyrwyr. Gyda 50% o raglenni gradd yn cael eu cynnal yn yr amgylchedd dysgu ymarfer, mae perthynas waith agos gyda'n partneriaid clinigol yn hanfodol. Ni fyddai llwyddiant y rhaglenni gradd yn bosibl heb yr ymroddiad a ddangosir gan academyddion a chlinigwyr sy'n cefnogi ein myfyrwyr.

plant a phobl ifanc arbenigol ar gyfer De Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi bron i 12,000 o staff, ein gweithlu yw enaid nid yn unig y Bwrdd Iechyd ond hefyd nifer o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn ystyried ein rôl fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal yn ddifrifol, ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn ein gwaith partneriaeth eang, ein hymroddiad i'n cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol a'r pwysigrwydd a roddwn ar adeiladu cydberthynas gyda'n staff a'n cymuned.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i'r 450,000 o bobl sy'n byw mewn tair Bwrdeistref Sirol: Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl

Yng Nghwm Taf Morgannwg credwn mewn arloesi i wneud gwelliannau i ofal clinigol. Rydym yn arbennig o falch o'n Canolfan Academaidd ym Merthyr Tudful, sy'n helpu i hyfforddi meddygon y dyfodol mewn meddygaeth gymunedol.

# NODDWYR EIN GWOBRAU

## GWOBRAU ADDYSG NYRSIO

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAWA

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIP Abertawe Bro Morgannwg gynt) yn darparu gofal ar gyfer tua 390,000 o bobl yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gydag ystod o wasanaethau trydyddol, gan gyflogi tua 13,000 o staff. Mae ganddo dri phrif ysbyty - Treforys, Singleton a Castell-nedd Port Talbot - ynghyd ag ysbyty cymunedol. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu mewn



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe  
Swansea Bay University  
Health Board

ysbytai a lleoliadau cymunedol ac mae ganddo gyfrifoldeb am ofal iechyd sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac offthalmolegwyr.

Mae BIP Bae Abertawe yn gartref i Ganolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a'i Hysgol Feddygaeth, yr Ysgol Gwyddorau Dynol ac Iechyd a'r Sefydliad Gwyddor Bywyd 1 a 2.

## GWOBRAU MYFYRIWR NYRSIO

NODDIR GAN  
ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU

Sefydlwyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar 1 Hydref 2018. Mae'n awdurdod iechyd arbennig o fewn GIG Cymru, a grëwyd drwy ddod â thri sefydliad allweddol ynghyd ar gyfer iechyd: Deoniaeth Cymru, Gwasanaethau Addysg a Datblygu Gweithlu (WEDS) GIG Cymru a Chanolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru (WCPPE). Gan eistedd ochr yn ochr â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, mae gan AaGIC rôl flaenllaw mewn addysg,



Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

hyfforddiant, datblygiad a siapio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru i ddarparu gofal diogel o ansawdd i bobl Cymru. Mae ei swyddogaethau allweddol yn cynnwys: addysg a hyfforddiant, datblygu a moderneiddio'r gweithlu, datblygu arweinyddiaeth, cynllunio gweithlu strategol, gwybodaeth am y gweithlu, gyrfaoedd ac ehangu mynediad at addysg iechyd.

## GWOBRAU NYRS GOFRESTREDIG (OEDOLION)

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyflenwi strategaeth uchelgeisiol a rennir ar gyfer iechyd a gofal yn y sir, sydd â'r nod o gefnogi pobl leol i gael Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda. Powys, a elwir yn 'Galon Werdd Cymru', yw'r Bwrdd Iechyd lleiaf yng Nghymru o ran niferoedd staff a phoblogaeth ond eto un o'r mwyaf o ran daearyddiaeth. Mae'n cwmpasu chwarter holl dir Cymru sy'n ymestyn o odre Eryri i Fannau Brycheiniog, o fynyddoedd y Cambria i Glawdd Offa.

Mae gofal cymunedol a sylfaenol yn flaenllaw ym mhopath a wna, gan weithio'n agos â Chyngor Sir Powys y mae'n rhannu'r un ffiniau ag ef yn ogystal â sicrhau



Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board

cysylltiadau gweithgar â'r trydydd sector. Gan mai hon yw'r sir fwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr, mae preswylwyr yn cyrchu gofal eilaidd a thrydyddol mwy arbenigol mewn byrddau iechyd cyfagos yng Nghymru ac ysbytai yn Lloegr. Mae hyn yn gofyn am ffocws dwys ar gomisiynu llwybrau gofal i ddarparu cymaint o'r gefnogaeth mor agos â phosibl i gartrefi pobl - gyda mynediad at ofal arbenigol pan fo angen - sy'n golygu bod Powys yn cynnig cyfle i staff ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad mewn ffyrdd arloesol ac ymreolaethol i ddiwallu anghenion ein cymunedau orau.



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
NURSE OF THE YEAR  
AWARDS

RHAGLEN GWOBRAU 2021

# NODDWYR EIN GWOBRAU

## GWOBWR PRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU

NODDIR GAN

BRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU, LLYWODRAETH CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Arweinir Swyddfa Prif Swyddog Nyrsio Cymru gan Sue Tranka, ac fe'i cefnogir gan bum Swyddog Nyrsio, a phob un ohonynt â phortffolio o feysydd y maent yn arwain arnynt. Gyda'i gilydd maent yn darparu arweinyddiaeth glir a gweladwy i'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru a hefyd yn rhoi cyngor proffesiynol arbenigol i'r Gweinidog Iechyd

a Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru, ac yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer GIG Cymru mae'n gyfrifol am berfformiad a datblygiad proffesiynol Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol.

## GWOBWR ARLOESED A DIGIDEIDDIO YM MAES NYRSIO

NODDIR GAN

FRONTIER MEDICAL GROUP



Mae **Frontier Medical Group** yn cynhyrchu ac yn marchnata amrywiaeth o ddyfeisiau meddygol sy'n canolbwyntio ar **Ofal y Croen a Chlwyfau**.

Mae cynhyrchion Frontier yn cynnwys:

- **Repose®** - cyfres o ddyfeisiau ailddosbarthu pwysau a ddefnyddir er mwyn atal a thrin briwiau pwysau, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y GIG yng Nghaerdydd.
- **ToTo®** - system raglenadwy unigryw ar gyfer troi cleifion y gellir ei gosod dan

unrhyw fatres ar unrhyw wely er mwyn troi'r claf yn raddol yn rheolaidd.

- **Dermisplus®** - cyfres o gynhyrchion gofal clwyfau datblygedig o ansawdd uchel a chost effeithiol sy'n cynnwys Dermisplus Tubing **Newydd**: cynnyrch a ddatblygwyd i helpu i leihau Briwiau Pwysau Cysylltiedig â Dyfais Feddygol.

Mae Frontier wedi'i leoli yn Nhredegar, mae'n cyflogi 75 aelod staff ac yn ddiweddar mae wedi sefydlu sefydliadau gwerthiannau uniongyrchol yn yr Unol Daleithiau a'r Almaen.

## GWOBWR CEFNOGI GWELLIANT DRWY YMCHWIL

NODDIR GAN

BRIFYSGOL CAERDYDD



Mae Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Caerdydd yn Ysgol ddeinamig ac arloesol sy'n cwmpasu ystod eang o broffesiynau gofal iechyd.

Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i ddatblygu gwybodaeth gofal iechyd effeithiol sy'n gwella canlyniadau iechyd a gofal iechyd yn uniongyrchol i gleifion a theuluoedd. Mae'r gyfadran a'r myfyrwyr yn ymfalchïo mewn ymchwil ac ysgolheictod o'r radd flaenaf ac

maent yn flaenllaw mewn trafodaethau gofal iechyd a pholisi ar lefel ryngwladol, cenedlaethol a lleol.

Ar gyfer myfyrwyr yr Ysgol, mae natur amlddisgyblaethol eu hamgylchedd dysgu a'u mynediad at addysgu gan ymchwilwyr o fri rhyngwladol yn sicrhau eu bod yn dod yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol medrus, gwybodus a thosturiol sydd wedi ymrwymo i ethos gofal seiliedig ar dystiolaeth.

# NODDWYR EIN GWOBRAU

## GWOBWR GOFAL AM UNIGOLION HŶN

NODDIR GAN  
BRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

Mae'r Brifysgol yn cynnig portffolio iechyd a lles unigryw sy'n hwyluso dull rhyngddisgyblaethol o ddatblygu cwricwlwm ac ymchwil gymhwysol.

Mae gwaith o'r fath yn cynnwys datblygu ymchwil drosi ac arloesedd o'r radd flaenaf ynghyd â sgiliau technegol a digidol cymhwysol, fel y gallwn feithrin gallu, mynd i'r afael â diffygion o ran sgiliau, uwchsgilio

ac ailsgilio'r gweithlu, yn enwedig ar ôl y pandemig.

Mae lleoliad ein campysau ledled De a Chanolbarth Cymru yn ein galluogi i weithio â phartneriaid allweddol, gan gynnwys ein byrddau iechyd lleol, er budd iechyd a lles ein rhanbarth drwy ddod â'n harbenigedd ynghyd i wneud gwahaniaethau diriaethol i fywydau unigolion yn ein cymunedau.



## GWOBWR NYRS Y FLWYDDYN 2021

NODDIR GAN  
YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu ystod o wasanaethau arbenigol ar lefel leol, rhanbarthol a Chymru gyfan. Mae darparu gofal o ansawdd a rhagoriaeth i'w gleifion a'i roddwyr wrth wraidd y sefydliad. Y ddau wasanaeth craidd a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yw:

Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru rôl sylfaenol mewn darparu gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n gweithio i sicrhau bod gwaed a roddir yn cael ei drawsnewid yn gydrannau gwaed a gwaed diogel ac effeithiol sy'n caniatáu i GIG Cymru wella ansawdd bywyd ac achub bywyd miloedd

ar filoedd o bobl yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu triniaethau a gwasanaethau canser anfeddygol arbenigol i bobl sy'n byw yn Ne Ddwyrain Cymru ac yn ehangach. Canolfan driniaeth, addysgu ac ymchwil arbenigol, a datblygu yw'r Ganolfan Ganser ar gyfer oncoleg anfeddygol, yn trin cleifion â chemotherapi, radiotherapi a thriniaethau cysylltiedig, ac yn gofalu am gleifion sydd ag anghenion gofal lliniarol arbenigol.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd yn lletya Technoleg Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.



# Gwobr Plant a Bydwreigiaeth



**KATHERINE FISCHER-JENKINS**

Bydwraig Gymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



**GAYNOR GOUGH** (*dde*)

Nyrs Staff, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

**MICHELLE STAPLE** (*chwith*)

Nyrs Glinigol Arbenigol i Blant ag Anghenion Ychwanegol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



Enwebwyd Kath ar gyfer y wobwr hon gan glaf sy'n credu ei bod hi'n haeddu cael ei chydabod fel bydwraig ragorol.

Bu farw merch gyntaf y claf yn ddeuddydd oed ar ôl esgor cymhleth. Ymwelodd Kath â'i chlaf yn yr ysbyty ac yn ei chartref, gan eistedd gyda hi wrth iddi alaru. Roedd ganddi'r reddf naturiol i wybod beth i'w ddweud, a phryd i ddweud dim byd o gwbl.

Dangosodd ymchwiliad i'r farwolaeth fod gofal gymunedol Kath yn ddi-ffael. Ni chollwyd mesuriad, yr un dudalen heb ei llofnodi. Roedd hi wedi gwneud popeth yn iawn.

Gofynnwyd i Kath fod yn fydwaig a enwir i'w chlaf ar gyfer ei dau feichiogrwydd nesaf. Ymwelodd â'i chlaf yn ei chartref pan oedd yn rhy bryderus i fynd i'r clinig, gwrandawodd ar y babi pan oedd angen sicrwydd, gwiriodd ganlyniadau gwaed a'u trosglwyddo yn ddi-oed. Byddai'n anfon negeseuon testun i sicrhau bod ei chlaf yn ymdopi a bod ganddi bopeth yr oedd angen arni.

Mae panel y gwobrau yn credu bod Kath yn seren ddisglair y mae ei hangerdd am roi gofal yn ei gwneud yn fodel rôl gwych i nyrsys a bydwreidd y dyfodol.

Geiriau ei chlaf oedd, "Mae gan Kath le arbennig yn fy nghalon a byddaf yn ddiolchgar iddi am byth am roi gofal mor bersonol i mi."

Mae Gaynor a Michelle wedi datblygu adnodd proffil iechyd newydd ac arloesol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol.

Mewn ymgynghoriad ag uwch nyrsys a meddygon ymgynghorol, gwnaethant archwilio ffyrdd i wella trefn lywodraethu clinigol a phrofiad cleifion. Fe wnaethant nodi bylchau yn y gwasanaeth a rhwystrau i ofal iechyd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed. Gwrandawyd wyneb yn wyneb ar deuluoedd, gan ganiatáu iddynt ddeall unrhyw broblemau.

Fel rhan o'r Gymuned Ymarfer (COP) gyda Gwelliant Cymru, mae Gaynor a Michelle yn bwriadu treialu'r adnodd proffil iechyd yn ardal Merthyr. Eu nod yw gwella cyfathrebu rhwng plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Eu nod yw cynhyrchu pecyn hyfforddi i godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo dealltwriaeth a chydabod yr angen am ofal gyda'r plentyn yn ganolog iddo sy'n rhoi canlyniadau gwell. Eu gweledigaeth yn y pen draw yw dyfodol lle nad yw pobl sydd ag anabledd dysgu yn wynebu unrhyw anghydraddoldebau iechyd.

Gwnaeth y gwaith traws-sefydliadol a gyflawnwyd a'r cysylltiadau strategol a sefydlwyd argraff ar banel y gwobrau. Fe wnaethant ganmol Gaynor a Michelle am eu dull strategol o alluogi newid mewn diwylliant ar gyfer gofal iechyd teg.

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR





# Gwobr Nyrsio Cymunedol



## ANWEN JONES

Nyrs Arbenigol Diabetes  
Cymunedol, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Hywel Dda



## SALLY IRVING

Arweinydd Clinigol Iechyd Rhywiol,  
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



Mae Anwen wedi gwasanaethu cymuned diabetes Ceredigion ers blynyddoedd lawer fel nyrs arbenigol diabetes cymunedol (CDSN), gan feithrin dull unigryw ar gyfer gofal cymunedol.

Mae ei dull arloesol yn cynnwys rhoi gofal seiliedig ar dystiolaeth ar waith i gleifion ac annog cydweithwyr yn gyson i ail-werthuso'r gofal a gynigir.

Hyrwyddodd gydweithrediad agos â meddygfeydd meddygon teulu yng Ngheredigion, gan ddod â gofal yn agosach at gartrefi cleifion. Roedd hyn yn galluogi clystyrau meddygon teulu i gyrraedd eu targedau gwasanaeth gwell ym maes diabetes, a dangos gwelliant mewn ansawdd. Sefydlwyd clinigau CDSN / nyrs practis ar y cyd yn ogystal.

Tynnodd Anwen sylw at gleifion â blaenoriaeth a chynigiodd gefnogaeth i'r nyrsys practis a'r meddygon teulu. Ar gyfer cleifion sydd â chymhlethdodau cymhleth, sefydlwyd clinig meddyg ymgynghorol rhithwir. Ar ôl sefydlodi triniaeth pob claf, fe'u hatyfeiriwyd yn ôl i ofal y nyrs practis/meddyg teulu.

Llwyddodd ei dull ystyriol i gasglu mwy o gefnogaeth ac ymgorffori datblygiad proffesiynol trwy ddiwrnodau astudio pwrpasol ar gyfer y tim ymarfer cyfan. Mae'r fformat wedi parhau trwy gydol y pandemig ar ôl cael ei addasu i amgylchedd rhithwir. Mae dull Anwen wedi arwain at well bodlonrwydd ymhlith cleifion, costau presgripsiynu sefydlog a mwy o hyder wrth reoli diabetes.

Mae'r newidiadau hyn i gyd wedi cael eu hysegogi gan angerdd Anwen i hyrwyddo gofal unigol, a rhannu gwybodaeth arbenigol yn eang ymhlith staff, cleifion a gofalywyr.

Mae Sally wedi dangos egni a brwdfrydedd ysbrydoledig ym maes gofal clinigol arbenigol trwy ei rôl fel arweinydd clinigol iechyd rhywiol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.


Yn flaenorol, byddai angen i gleifion ag anghenion iechyd rhywiol ac atgenhedlu arbenigol fynd i ganolfannau iechyd mewn byrddau iechyd cyfagos. Mae Sally wedi arwain mentrau newydd creadigol i gynyddu mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol mewn cymunedau lleol, gan leihau neu ddileu'r angen i bobl deithio.

Mae ei harweiniad o fentrau clinigol ar gyfer preswylwyr Powys yn cynnwys gwasanaeth profi a phostio Iechyd Cyhoeddus Cymru i brofi ar-lein ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, atal cenhedlu dan arweiniad bydwagedd ac ymwelwyr iechyd, pils trwy'r post ar gyfer gwasanaethau terfynu beichiogrwydd, a gwasanaethau fasectomi a ddarperir gan ofal sylfaenol.

Mae Sally wedi cynorthwyo ei gweithlu i dyfu'r gwasanaeth, ac wedi defnyddio ei dysgu trwy raglen arweinyddiaeth ILM 5. Llwyddodd i sicrhau cronfeydd elusennol i gefnogi holl fydwragedd ac ymwelwyr iechyd Powys i ddilyn rhaglenni sgiliau hanfodol.

Mae ei sgiliau clinigol ei hun wedi cael eu datblygu ym maes mewnosod Dull Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor (LARC), gan gynyddu argaeledd gwasanaethau LARC ar gyfer menywod Powys.

Wedi'i grymuso gan agwedd 'gallaf wneud' a meddwl yn greadigol, mae Sally wedi dangos proffesiynoldeb ac arweinyddiaeth glinigol ragorol i gyflymu'n sylweddol welliannau rhanbarthol.



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

NODDIR GAN  
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA**



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board

RHAGLEN GWOBRAU 2021

# Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth



**SUE REES BEM**

Ymarferydd Nyrsio Uwch,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



**BETHAN LEWIS**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd  
y Cyhoedd Dros Dro, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Roedd Sue mewn sefyllfa arbenigol i arwain yr her a'r ymateb i atal heintiau COVID-19 yn y gymuned. Cynhyrnodd fodel atal heintiau a gwnaeth wahaniaeth a achubodd fywydau ar nifer o achlysuron.

Wrth i'r pandemig agosáu, roedd gan Sue wybodaeth hollbwysig, yn gweithio mewn rôl unigryw yng Nghymru fel ymarferydd nyrsio uwch ym maes atal heintiau cymunedol, gyda chylch gwaith bwrdd iechyd strategol.

Ar ôl ymddeol o'i rôl llawn amser yn 2018, dychwelodd i weithio am dri diwrnod yr wythnos. Rhannodd arbenigedd yn brydlon ar draws y gymuned er budd cleifion, preswylwyr, staff gofal iechyd a phartneriaid.

Roedd ei gwaith eang yn cynnwys gweithredu polisiâu atal heintiau COVID-19, comisiynu unedau sgrinio, hyfforddi aelodau byddin Prydain, a chynorthwyo gydag achosion mewn cartrefi gofal, ysbytai cymunedol, lleoliadau gofal sylfaenol ac ysgolion. Hefyd, datblygodd brosesau a pholisi mewn gwrsyll lloches lleol.

Roedd Sue yn ymweld â chartrefi gofal yn rheolaidd i asesu preswylwyr a gosod mesurau atal heintiau ar waith er mwyn rheoli achosion. Arweiniodd yr ymgyrch sgrinio torfol o holl breswylwyr a staff cartrefi gofal ar draws y bwrdd iechyd.

Heb os, arbedodd y gweithredoedd hyn, ynghyd â chynlluniau rheoli achosion, fywydau.

Mae Sue wedi cyfathrebu model atal heintiau COVID-19 i gydweithwyr ledled Cymru ac mae'n gobeithio ei gyflwyno i gynulleidfaoedd ehangach.

Gwnaeth Bethan gyfraniad unigol unigryw i raglen frechu COVID-19 ledled gorllewin Cymru.

Sicrhaodd yn gyflym fod digon o unigolion cofrestredig hyfforddedig ar gael, cyn nodi lleoliadau brechu ledled y rhanbarth. Arweiniodd hyn at saith canolfan brechu torfol, gan sicrhau bod y nifer mwyaf posibl yn derbyn brechlyn a bod y gwasanaeth yn deg.

Sefydlodd Bethan drefn lywodraethu ar gyfer y rhaglen frechu ar draws y bwrdd iechyd, gan gyflwyno strwythurau arweinyddiaeth nyrsio allweddol ar gyfer pob canolfan brechu torfol.

Gan ymateb yn gyflym i gefnogi cymuned deithiol a brofodd farwolaeth cysylltiedig â COVID-19, cynorthwyodd i ffurfio grŵp tegwch brechlyn. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â swyddog cymorth allweddol a threfnu cynllun brechu symudol i gyrraedd y gymuned. Derbyniodd mwyafrif aelodau'r gymuned a oedd yn betrusgar ar y cychwyn frechiadau, a dychwelyd am ail ddos.

Trwy arweinyddiaeth Bethan, mae'r grŵp tegwch brechlyn wedi gweithio gyda chymunedau anodd eu cyrraedd yng ngorllewin Cymru, gan gynnwys pobl sy'n ddigartref.

Nododd y camau sydd eu hangen i roi'r cyfle gorau i bawb yn y rhanbarth gael eu brechu, gan gyflwyno ffurflen ddigidol a rannwyd ar draws cyfryngau cymdeithasol.

Mae rhaglen frechu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi mabwysiadu'r arwyddair 'gadael neb ar ôl,' sydd wedi'i bersonoli yn ymrwymiad Bethan i iechyd y boblogaeth.

NODDIR GAN  
**IECHYD CYHOEDDUS CYMRU**



# Gwobr Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl



## STEPHEN CLARKE

Penhaeth Iechyd Meddwl a  
Dementia, Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

ENILLYDD



## SHARON WILLIAMS

Rheolwr Rhaglen Gwella  
Gwasanaeth, Tîm Gwella  
Anabledd Dysgu, Iechyd  
Cyhoeddus Cymru

AIL

Mae Steve wedi siapio ei rôl yn annibynnol i gyflawni ystod eang o fentrau newydd arloesol o fewn y tîm iechyd meddwl a dementia.

Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno nyrsys iechyd meddwl ar linellau ffôn 111 a desgiau gwasanaeth clinigol, cynhyrchu deunydd cyfryngau fel y fideos #WASTKeepTalking i godi ymwybyddiaeth, a datblygu model ymateb ar gyfer y rheini sy'n ffonio 999 neu 111 gydag argyfwng iechyd meddwl neu ddementia.

Mae wedi cynllunio gwirwyr symptomau ar gyfer iechyd meddwl a dementia ar wefan 111 GIG Cymru ac mae'n adeiladu'n barhaus ar fodiwlau e-ddysgu, gan wrando ar anghenion staff a thystiolaeth o bob rhan o'r DU i gynhyrchu modiwlau atyniadol yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Mae Steve yn sicrhau bod sgiliau'r gweithlu yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr gwasanaeth trwy recriwtio a chadw gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, ac mae ganddo rôl annatod yn y gyfarwyddiaeth ansawdd ehangach.

Fel arweinydd gwerthfawr o fewn y tîm, mae Steve yn defnyddio arddull arweinyddiaeth caredig a thosturiol. Mae ganddo ymrwymiad cryf i'r agenda iechyd meddwl a dementia yng Ngwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan sicrhau bod gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn aros wrth galon yr ymgyrch.

Mae Sharon yn nyrs anabledd dysgu sydd â hanes rhagorol o hyrwyddo gwasanaethau i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Roedd ei rôl yn Gwelliant Cymru yn canolbwyntio ar ofal a chyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Sefydlodd dîm o nyrsys anabledd dysgu arbenigol a gweithio i sicrhau cynaliadwyedd.

Mae gan Sharon hanes sylweddol o gyflawni ym maes anabledd dysgu.

Hyrwyddodd rôl nyrsys cyswllt aciwt anabledd dysgu, sydd bellach yn bresennol ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Gwreiddiodd y fframwaith cydraddoldebau iechyd ar lefel gwasanaethau yn y gymuned, cyn defnyddio'r fframwaith ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Mae wedi trefnu digwyddiadau ledled Cymru i dynnu sylw at anghenion y boblogaeth anabledd dysgu, gan rannu arfer da a ffyrdd o wella gofal cleifion.

Mae wedi cynnal ymchwil cydweithredol, gan nodi y gallai offer cyfathrebu iechyd o bosibl fod yn anniogel i bobl ag anableddau dysgu.

Comisiynodd 'Proffil Iechyd Unwaith i Gymru', offeryn diogelwch cleifion seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a lansiwyd gan y prif swyddog nyrsio ym mis Mehefin 2020.

Mae angerdd Sharon am ofal nyrsio effeithiol seiliedig ar dystiolaeth wedi parhau am dros 30 mlynedd o ymarfer. Ni ellir gwadu ei hymrwymiad i roi sylw i anghydraddoldebau a sicrhau newid.



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

NODDIR GAN  
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN**



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

RHAGLEN GWOBRAU 2021

# Gwobr Nyrsio Gofal Sylfaenol



**KIRSTY JOHN**

Prif Nyrs, CEM Caerdydd,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro



**VERONIQUE HUGHES**

Nyrs Rhanbarthol, Tîm Gofal yn y  
Cartref Cymhleth, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin Bevan



Mae Kirsty yn nyrs carchar ymroddedig yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd. Mae ei hymroddiad wedi cael effaith gref ar y tîm gofal iechyd yn ystod y cyfnodau mwyaf anodd.

Dangosodd arweinyddiaeth effeithiol mewn cefnogi cydweithwyr carchar a gofal iechyd trwy gydol y pandemig, hyd yn oed pan oedd y tîm nyrsio wedi'i deneuo oherwydd y firws.

Gweithiodd Kirsty gyda chydweithwyr i ddsbarthu meddyginiaeth ar draws pob maes clinigol. Hi oedd yn arwain system brofi COVID-19 i'r holl ddyinion a oedd yn cyrraedd y carchar, a chreodd hyb brechu yn y carchar, gan gynnig y brechlyn i newydd-ddyfodiaid o fewn saith diwrnod a helpu i wneud y carchar yn lle mwy diogel.

Rhoddodd ei phrofiad o weithio fel nyrs camddefnydd sylweddau cymunedol y sgiliau iddi fynd i'r afael ag anghenion y rhai oedd yn gaeth i sylweddau. Cysylltodd Kirsty hefyd â'r tîm cymunedol firws a gludir yn y gwaed i nodi achosion o hepatitis C, a dechreuodd driniaeth i ddileu'r firws lle bo hynny'n bosibl.

Mae Kirsty yn aelod tîm uchel ei pharch ymhlith staff a charcharorion fel ei gilydd ac wedi ymrwymo i wella bywydau pobl sydd yn ei gofal. Nid yn unig o ran atal, ond hefyd o ran cadw pobl yn heini ac yn ddiogel pan fyddant yn y carchar, a gwella iechyd tymor hir.

Mae Veronique wedi arwain tîm gofal yn y cartref cymhleth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP AB) trwy gydol y pandemig.

Gwnaeth ei gweledigaeth i integreiddio seicolegydd clinigol fel rhan o'r gwasanaeth wahaniaeth mawr i staff a chleifion.

Mae Veronique yn angerddol am rôl ei thîm mewn galluogi trosglwyddiad gofal o ysbytai a gofal cymdeithasol, i ofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf gartref.

Trwy gydol cyfnod y pandemig, mae ei thîm wedi gofalu am bobl ag anafiadau i'r asgwrn cefn, pobl ag anableddau dysgu, a phobl a oedd ar beiriannau cymorth anadlu, gan eu galluogi i gael bywyd mor gyflawn â phosibl.

Gwelodd Veronique yr angen am ofal Gwelodd Veronique yr angen am ofal seicolegol i'r rheini a brofodd ddigwyddiadau newid bywyd ond na wnaeth erioed fynd i'r afael â'r materion dyfnach oedd yn gysylltiedig â hyn. Sicrhaodd wasanaeth seicolegydd clinigol newydd ar gyfer y gwasanaeth, gan roi dimensiwn hollol newydd i'r gofal sydd ar gael gan ei thîm.

Gwnaeth hyn wahaniaeth rhyfeddol i gleifion a staff, gan helpu i'w cael trwy'r pandemig.

Mae Veronique yn sicrhau bod ei thîm yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi trwy fuddsoddi yn eu lles a'u cefnogaeth seicolegol, gan gynnal addysg a hyfforddiant. Caiff ei hystyried yn arweinydd ysbrydoledig sy'n hyblyg, yn barod i wrando ac yn agored i gael ei herio.

NODDIR GAN **BMA CYMRU WALES**



Cymru Wales

# Gwobr Nyrsio Pediatrig Suzanne Goodall



## LAURA TRUSCOTT-WRIGHT

Addysgwr Ymarfer, Nyrs WellChild:  
Hyfforddwr Rhieni, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Caerdydd a'r Fro



## REBECCA MCDONALD

Nyrs Gofal Lliniarol Pediatrieg /  
Nyrs Plant Cymunedol, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Mae Laura wedi ailfodelu systemau a gwasanaethau fel hyfforddwr rhieni cyntaf Wellchild yng Nghymru, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i dderbyn gofal o ansawdd trwy gydol y pandemig.

Tra ei bod yn ei swydd am fis cyn y cyfnod clo cyntaf, ymgollodd Laura mewn polisïau, gweithdrefnau a strategaethau ar gyfer datblygu llwybrau gofal a chymwyseddau hyfforddi.

Gweithiodd gydag arbenigwyr i ystyried y sail tystiolaeth a hyrwyddo ffyrdd newydd creadigol o weithio i gefnogi hyfforddiant hanfodol. Cynhyrchodd Laura adnoddau fideo ar gyfer rhieni a hyfforddodd yn uniongyrchol dros gant o aelodau teuluoedd mewn sgiliau clinigol.

Roedd hyn yn drawsnewidiol i deuluoedd oedd yn gofalu am blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

Mae ei chefnogaeth i staff sydd angen hyfforddiant gloywi oherwydd pwysau COVID-19 ac adleoli staff hefyd wedi bod yn amhrisiadwy. Cyflwynodd hyfforddiant yn y gymuned, yn yr ysbyty, ac yn yr ystafell hyfforddi WellChild newydd, y gwnaeth helpu i'w datblygu.

Mae Laura bob amser yn chwilio am feysydd i'w gwella, o weithio gyda'r tîm resbiradol ar dracheostomi, trawsnewid o dapiau felcro i gysylltiadau twil, i ddylanwadu'n uniongyrchol ar bolisi.

Mae wedi derbyn adborth hynod gadarnhaol gan rieni a gofalywyr, ynghyd â chydabyddiaeth gan gyfarwyddwyr nyrsio.

Gyda sgiliau arbenigol, gwybodaeth ac ysgogiad cryf i helpu, mae Laura wedi cyffwrdd â bywydau dirifedi ledled y rhanbarth.

Mae Rebecca wedi rhagori mewn darparu gofal i blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd neu salwch cymhleth gydol oes yn ystod cam gwaethaf y pandemig.

Er gwaethaf sawl her, harneisiodd Rebecca ei holl sgiliau tosturi ac arweinyddiaeth i wireddu dewis rhieni i blant farw yn eu cartref eu hunain, wedi'u hamgylchynu gan aelodau agos o'r teulu.

Rhoddodd ofal cartref diwedd oes cyfannol, 'rownd y cloc', ar yr un pryd ar gyfer dau blentyn, gyda'r cam olaf ar gyfer un plentyn yn cwmpasu cyfnod o dri mis. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid iddi negodi ymrwymiad timau ysbytai, cymunedol a hosbisau.

Yn ogystal â rhoi gofal ymarferol, cydlynodd Rebecca rotas staff, addysg gyrrwr chwistrell, meddyginiaethau, presgripsiynau a dosbarthu cyflenwadau, cynnal cefnogaeth a chadw at ymarfer diogel. Roedd hi hefyd yn astudio tuag at radd meist'r gysylltiedig ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cyfathrebodd Rebecca yn arbenigol â rhieni a gweithwyr proffesiynol, gan drin sefyllfaoedd tralodus yn sensitif iawn. Roedd parhad ei gofal ar ôl marwolaeth yn cynnwys cefnogi rhieni gyda threfniadau angladd, ymweld â threfnwyr angladdau, cynllunio a mynychu'r angladd, ac ymweliadau profedigaeth.

Yn uchel ei pharch gan ei chyfoedion fel model rôl ysbrydoledig, mae Rebecca yn canolbwyntio ar newid strategol cadarnhaol, ac wedi ymrwymo i sicrhau newid sy'n canolbwyntio ar y teulu ac wedi'i danategu gan hyblygrwydd.



NODDIR GAN Tŷ HAFAN



# Gwobr Nyrsio Uwch ac Arbenigol



## NIA BOUGHTON

Nyrs Ymgynghorol, Gofal Sylfaenol,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

ENILLYDD



## SARAH REES

Uwch Nyrs, Llawfeddygaeth Gyffredinol  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## PAULA STRONG

Arweinydd Clinigol ar  
gyfer Ymarferwyr Nyrsio Llawfeddygol  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

AIL

Cynhyrchodd Nia fframwaith newydd arloesol ar gyfer rhaglen ymarfer uwch ym maes gofal sylfaenol.

Ar ôl sylwi ar fwch gofal sylfaenol yn y fframwaith cymhwysedd ymarfer uwch blaenorol, ymgysylltodd â phrifysgol a'r academi gofal sylfaenol a chymunedol leol.

Helpodd ei hangerdd am nyrsio gofal sylfaenol hi i oresgyn heriau mawr wrth gynllunio'r fframwaith. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys nid yn unig y pandemig, ond hefyd y galluoedd eang mewn gofal sylfaenol.

Mae cryfderau a gwerthoedd nyrsio cynhenid bellach yn llywio'r 'Fframwaith Cymhwysedd Ymarfer Uwch ar gyfer Gofal Sylfaenol.' Mae'n adlewyrchu symudiad beiddgar oddi wrth fodel meddygol agored, tuag at fodel o wytnwch cymdeithasol a lles, gyda nyrsio yn ganolog iddo.

Bellach mae map ffordd ar gyfer nyrsys sydd am ddilyn gyrfa gydol oes ym maes gofal sylfaenol. Ond yn bwysicaf oll, mae'n gwella'r profiad a'r canlyniadau i gleifion.

Rhannwyd y fframwaith ymhlith darparwyr gofal sylfaenol ledled rhanbarth Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yng ngogledd Cymru ac yn ddiweddar gyda chydweithwyr yn ne Cymru.

Mae ymarferwyr sy'n defnyddio'r fframwaith yn adrodd am welliannau sylweddol yn eu profiad hyfforddi, ac yn eu gallu i egluro cynlluniau datblygu clir, ymhell ar ôl cwblhau eu haddysg gychwynnol.

Arweiniodd Sarah a Paula raglen wella fawr i gynyddu nifer y cleifion sy'n derbyn gofal brys yr un diwrnod mewn llawfeddygaeth gyffredinol, tra'n rheoli'r galw a lleihau derbyniadau brys.

Roedd lefelau uwch o alw brys mewn llawfeddygaeth gyffredinol a chyfyngiadau llif cleifion yn arwain at arosiadau hir am welyau cleifion mewnol a llawfeddygaeth.

Ffurfiwyd gweithgor i ailstrwythuro'r gwasanaeth a gwella profiad y claf, gyda rolau allweddol wedi'u neilltuo i Sarah, rheolwr ward, a Paula, arweinydd clinigol ar gyfer ymarferwyr nyrsio llawfeddygol.

Daeth y gweithgor ynghyd â'r Rhwydwaith Gofal Brys Llawfeddygol Dydd (SAEC), rhaglen gwella ansawdd genedlaethol yn y DU. Gyda'u cefnogaeth, lanswyd proses newydd ym mis Chwefror 2020 yn cyflwyno llinellau ffôn brysbennu llawfeddygol, llwybrau clinigol clir ar gyfer y cyflyrau llawfeddygol mwyaf cyffredin, a chlinig poeth fel dewis amgen i dderbyniadau brys.

Arweiniodd y newidiadau hyn at ostyngiad cyffredinol yn y nifer a oedd yn mynychu, yn enwedig trwy'r llwybr gofal sylfaenol, a chafodd hyn ei gynnal yn ystod y cyfnod adfer wedi'r pandemig. Mae cyfran y cleifion sydd angen eu derbyn wedi gostwng, ac mae adborth gan gleifion wedi bod yn gadarnhaol.

Mynychodd Sarah a Paula gyfarfodydd rheolaidd, digwyddiadau rhwydwaith SAEC a chymryd rhan ym mhob agwedd ar y prosiect. Fe wnaethant roi oriau ychwanegol a'u hamser eu hunain, gan ddangos brwdfrydedd, y gallu i addasu ac ymrwymiad drwy'r broses i gyd.

NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board

# Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd



## DIANE REES

Llywiwr Canser Macmillan,  
Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre



Llywiwr canser yw Diane sydd â rôl hollbwysig yn y tîm nyrsio clinigol arbenigol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Mae'n darparu pwynt cyswllt cyfarwydd i gleifion, yn gwerthuso'r gwasanaeth llywio yn barhaus ac yn arwain prosiectau hunan-gychwyn i gynorthwyo taith y claf.

Mae hi wedi datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer rôl y llywiwr, wedi adolygu anghenion cleifion gan ddefnyddio data digidol, ac wedi cyflwyno poster yn arddangos ei gwaith mewn cynhadledd genedlaethol.

Disgrifiwyd Diane fel 'angor' o ran rhannu gwybodaeth, ac mae'n datblygu grŵp llywio i barhau i rwydweithio a rhannu arfer gorau, gyda chysylltiadau eisoes wedi'u datblygu ar draws rhwydweithiau de ddwyrain Cymru a Macmillan ledled y wlad.

Mae wedi cymryd rhan mewn addysgu cwrs canser ôl-radd i Brifysgol Caerdydd ac wedi treialu sesiwn grŵp rhithwir yn cefnogi cleifion y colon a'r rhefr.

Mae ei sgiliau arwain naturiol o fewn y tîm llywio a'i chyfraniad mawr i ofal o safon yn cael ei adlewyrchu mewn adborth cadarnhaol gan gleifion, gofalwyr a chydweithwyr. Teimlai panel y gwobrau fod Diane yn rhoi cleifion wrth galon ei gofal.

Mae Diane yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth seiliedig ar dystiolaeth ochr yn ochr â chydweithwyr. Gan weithio yn unol â'r cod ymddygiad bob amser, mae hi'n llais cadarnhaol a pharchus iawn yn y tîm.



## BETSAN IFANS

Nyrs Feithrin,  
Gweithiwr Cymorth  
i Ymwelwyr Iechyd,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda



Mae Betsan yn weithiwr cymorth ymweliadau iechyd a ailstrwythurodd ei gwasanaethau yn wyneb COVID-19.

Cyn y cyfnod clo, cyflwynodd Betsan sesiynau grŵp wyneb yn wyneb gyda theuluoedd a phlant o dan 5 oed. Pan gyhoeddwyd y clo cyntaf, roedd yn rhaid i hynny ddod i ben.


Sylweddolodd yn gyflym y byddai pobl yn colli cyswllt cymdeithasol a buddion iechyd ei grwpiau a sefydlodd grŵp rhiant a phlentyn rhyngweithiol dwyieithog. Cofleidiwyd y syniad ar unwaith a chynyddodd y niferoedd a oedd yn mynychu.

Amcanion Betsan oedd cadw teuluoedd yn gysylltiedig a datblygu bondiau grwpiau cymheiriad, ynghyd â chynnig plattform rhyngweithiol ar gyfer hybu iechyd a lles.

O fewn y plattform, daeth o hyd i ffyrdd i hyrwyddo rhianta cadarnhaol, lles rhiant a phlentyn, hybu iechyd a disgwyliadau ymddygiad. Cyflwynodd negeseuon allweddol ar fwyd babanod, imiwneiddio, ymwybyddiaeth synhwyraidd a diogelwch. Y cyfan tra'n atgyfeiro at ymwelwyr iechyd ac aelodau eraill o'r tîm.

Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol ac mae pobl wedi elwa'n fawr gan waith Betsan. Addasodd ei gwasanaethau yn wych a thyfodd ei phroffil fel aelod staff gofalgar ac un yr ymddiriedir ynddi.

Cred panel y gwobrau bod Betsan yn eiriolwr gwirioneddol dros deuluoedd, ac yn dangos cariad llwyr tuag at ei swydd.



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

NODDIR GAN  
**BWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD  
ARBENIGOL CYMRU (PGIAC)**



Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd  
Arbenigol Cymru (PGIAC)  
Welsh Health Specialised  
Services Committee (WHSSC)

# Gwobr Cefnogi Addysg a Dysgu mewn Ymarfer



**JACQUELINE MORGAN** (*dde*)

Uwch Nyrs Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

**MATTHEW THORNTON** (*chwith*)

Rheolwr Academaidd / Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Ymarfer ac Efelychu, Prifysgol De Cymru



**SARAH KINGDOM-MILLS**

Hwylusydd Addysg Gofal yn y Cartref, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Mae Jacqui a Matthew wedi arwain y gwaith o gyflwyno model newydd ac uchelgeisiol o addysg a dysgu mewn ymarfer.

Gan ddefnyddio dull dysgu cydweithredol (CLiP), mae'r model newydd yn cefnogi dull gwreiddiol ar gyfer myfyrwyr nyrsio sy'n symud oddi wrth fentoriaeth draddodiadol a thuag at hyfforddi. Mae hyn yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu mwy o hyder a chymhwysedd trwy ddull seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael ei lywodraethu'n ddiogel a'i werthuso'n llawn.

Yn y fenter gyntaf o'i math yng Nghymru, mae Jacqui a Matthew wedi llywio cydweithrediad rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Phrifysgol De Cymru mewn modd arbenigol.

Mae'r dull newydd yn caniatáu i fyfyrwyr fod yn fwy rhagweithiol wrth ofalu am gleifion. Mae'n cefnogi dysgu o ansawdd uchel, yn buddsoddi mewn goruchwylwyr presennol a darpar oruchwylwyr ac yn cynnal cysylltiadau i gefnogi'r rôl hon. Mae gofyn i fyfyrwyr y drydedd flwyddyn hyfforddi myfyrwyr blwyddyn gyntaf o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig.

Mae cyflwyno newid mor eang yn gofyn am wytnwch a hyblygrwydd gan fyfyrwyr, hwyluswyr addysg ymarfer, aseswyr a goruchwylwyr.

Wedi'i weithredu ar adeg o bwysau eithafol o fewn y GIG, mae'r prosiect wedi'i arwain gan Jacqui a Matthew gyda sensitifrwydd, ymrwymiad a phroffesiynoldeb mawr. Gellir priodoli ei lwyddiant yn uniongyrchol i'w cydarweinyddiaeth eithriadol.

Sarah yw'r hwylusydd addysg cartrefi gofal cyntaf yng Nghymru ac mae'n datblygu dysgu ymarfer mewn cartrefi gofal a chyfoethogi'r profiad dysgu ar draws meysydd gofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae'r rôl wedi'i chofleidio'n eang diolch i'r wybodaeth, yr ymrwymiad a'r hyder y mae hi wedi eu cyflwyno i'r rôl.

Mae gwerthusiadau cynnar wedi bod yn eithriadol. Ymgysylltodd Sarah â rhanddeiliaid i hyrwyddo'r rôl, cafodd brofiadau dysgu ychwanegol i nifer o fyfyrwyr a chydweithiodd yn eang ar draws meysydd nyrsio, addysg a gofal cymdeithasol.

Bu Sarah yn weithgar ledled Cymru yn gweithredu safonau goruchwyllo ac asesu Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae wedi dangos angerdd tuag at ddysgu pobl eraill, a thuag at gefnogi staff fel aseswyr a goruchwylwyr ymarfer.

Mae'r dysgu ar gyfer myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol a gefnogir gan Sarah yn helpu i sicrhau diwylliant o safonau uchel wrth asesu. Mae'n datblygu proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth, gan ganiatáu i unrhyw bryderon gael eu codi mewn modd adeiladol drwy fframwaith dosturiol.

Bydd gwaith Sarah yn parhau i ehangu cyfleoedd dysgu llawer o fyfyrwyr, gan godi proffil cartrefi gofal, a gwella bywydau pobl sydd eu hangen.

NODDIR AR Y CYD GAN

**BRIFYSGOL DE CYMRU A BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board



# Gwobr Addysg Nyrsio



## CHRISTINE COTTRELL

Nyrs Arweiniol mewn Addysg Diabetes  
(Arweinydd ThinkGlucose),  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



## AMANDA HOLLAND

Rheolwr a Darlithydd Rhaglen  
SCPHN, Gofal Sylfaenol ac Iechyd  
y Cyhoedd, Prifysgol Caerdydd

## DR LORRAINE JOOMUN

Darlithydd, Nyrsio Gofal Sylfaenol  
ac Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol  
Caerdydd



Mae Chris wedi cynhyrchu rhaglenni addysgol ar draws pob sector o'r bwrdd iechyd er mwyn helpu i leihau achosion / camgymeriadau mawr yn ymwneud â diabetes a meithrin hyder staff.

Mae ei phositifrwydd heintus a'i hegri diderfyn wedi arwain yn uniongyrchol at welliannau mewn gofal cleifion a gwerthusiadau dysgu cadarnhaol gan staff amlbroffesiwn.

Yn ogystal â darparu a gwerthuso addysg diabetes, mae Chris wedi cynllunio modiwlau deinamig ar gyfer y rhaglen MSc Diabetes yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe. Hefyd, datblygodd raglen ychwanegol werthfawr yn benodol ar gyfer y sector cartrefi gofal.

Mae Chris wedi gwella mynediad at addysg i gleifion a staff trwy gynhyrchu ffilmiau a datblygu cyfryngau eraill i gefnogi pobl wrth iddynt hunanreoli. Mae hyn yn cynnwys ap ffôn clyfar MyDiabetes, deunydd ar gyfryngau cymdeithasol, deunydd e-ddysgu a gwybodaeth ddigidol.

Mae hi hefyd wedi gweithio ar lefel genedlaethol i ddatblygu canllawiau ar gyfer rheoli diabetes a COVID-19.

Mae ei hymrwymiad i rannu gwybodaeth o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a'i hintegreiddio'n brydlon i addysg yn cael ei ddangos mewn rhaglen bwrpasol ynglŷn ag effaith diabetes mewn beichiogrwydd.

Mae Chris yn cael ei chydabod fel arbenigwr yn ei maes sy'n parhau i ymarfer. Mae hyn yn rhoi'r persbectif iddi greu rhaglenni addysgol cymhellol a chyfoes sy'n cael yr effaith fwyaf.

Mae Amanda Holland a Dr Lorraine Joomun yn ddarlithwyr ar y rhaglen Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) ym Mhrifysgol Caerdydd, rhaglen sydd wedi paratoi nyrsys a bydwragedd cofrestredig ar gyfer rôl ymwelydd iechyd SCPHN ers 1952.

Oherwydd colli dau aelod o'r tîm, bu'n rhaid i Amanda a Lorraine gyflwyno'r rhaglen i'r un safonau uchel heb ddigon o staff. Roedd angen iddynt hefyd ei haddasu ar gyfer dysgu cyfunol oherwydd cyfyngiadau COVID-19, a'i haddasu ar gyfer fframwaith dysgu digidol seiliedig ar dystiolaeth newydd y Brifysgol.

Dangosodd Amanda a Lorraine ddycnwch mawr yn wyneb yr heriau hyn.

Buont yn gweithio oriau hir, gyda'r hwyr, ar benwythnosau, a hyd yn oed ar ddiwrnodau i ffwrdd i flaenoriaethu myfyrwyr a sicrhau profiadau dysgu cadarnhaol.

Gan ddefnyddio dull creadigol, fe wnaethant addasu'r rhaglen SCPHN ar gyfer dysgu ar-lein gyda chyfuniad o offer ac adnoddau addysgu. Roedd y rhain yn cynnwys Powerpoint, Xerte, MS Sway, recordiadau Panopto, fideos addysgu personol, Mentimeter a fforymau trafod ar-lein.

Daethant o hyd i ffyrdd i ymgorffori siaradwyr allanol a gweithdai dysgu rhyngbroffesiwn, sydd bob amser wedi cael eu gwerthfawrogi gan fyfyrwyr.

Mae ymroddiad Amanda a Lorraine eleni wedi cael ei gydnabod gan fyfyrwyr trwy lawer o negeseuon e-bost personol o ddiolch.



NODDIR GAN  
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAW



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe  
Swansea Bay University  
Health Board

# Gwobr Myfyriwr Nyrsio



## CHRISTINE BROOKES

Myfyriwr Nyrsio (Oedolion) /  
Gweithiwr Cymorth Nyrs Ysgol,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



## JOSANNE CULLEN

Myfyriwr Nyrsio (Oedolion),  
Prifysgol Cymru

Mae Christine wedi creu argraff ar gydweithwyr yng nghanolfan reoli COVID-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyda'i gallu i addasu i anghenion sy'n newid yn gyflym, gan weithredu gyda gofal, tosturi a chwilyfrydedd.

Mabwysiadodd canolfan reoli COVID-19 wahanol ddulliau a symud ar gyflymder mewn ymateb i ganllawiau a oedd yn newid yn barhaus. Integreiddiodd Christine yn gyflym â dull blaengar ac awydd i ddysgu.

Wrth astudio ar raglen bwrdd iechyd 4 blynedd 'Tyfu Eich Hun', mae Christine wedi cefnogi gweithrediad y ganolfan mewn sawl ffordd. Cefnogodd y swyddogaeth brofi wrth frysbennu cleifion oedd angen profion, creu dogfennau ar gyfer cleifion a staff, a chyrchu canlyniadau. Yna trosglwyddodd i gefnogi tîm y rhaglen frechu.

Datblygodd Christine becynnau adnoddau i'w helpu hi a'i chyd-fyfyrrwyr i lywio eu gwaith. Mae'r bwrdd iechyd wedi sicrhau bod y becynnau adnoddau hyn ar gael yn Saesneg a Chymraeg ar gyfer myfyrrwyr sy'n dechrau, gan ganiatáu i waith Christine helpu eraill ar ôl ei chyfnod ar leoliad.

Rhoddodd agwedd gadarnhaol Christine hwb i gydweithwyr mewn cyfnod o bwysau mawr, tra bod ei hyblygrwydd yn dangos ymrwymiad eithriadol i'w phroffesiwn ar gyfer y dyfodol. Cododd arian hefyd ar gyfer lles staff Hywel Dda trwy ei chanu, a chaniatáu i'w chanu a'i darllen barddoniaeth gael eu defnyddio yn ei fideos.

Mae Josanne wedi dangos ymrwymiad ac angerdd ar gyfer nyrsio trwy gydol ei hastudiaethau, yn anad dim wrth gymryd rôl banc adnoddau yn uned gofal dwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP AB) yn ystod cyfnod o bwysau aruthrol COVID-19.

Ym mlwyddyn gyntaf astudiaethau gradd Baglor mewn Nyrsio Josanne ym Mhrifysgol De Cymru, tynnwyd myfyrrwyr yn ôl o ymarfer.

Mewn ymateb, penderfynodd Josanne gymryd swydd ym maes cymorth gofal iechyd. Roedd hi'n barod i roi ei hamser i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal gorau posibl, gan ymgymryd â thasgau fel dal dwylo pobl, gwefru ffonau a helpu cleifion i gysylltu â theulu nad oedd modd iddynt ymweld.

Ers hynny, mae Josanne wedi gweithio ar leoliad yn un o ganolfannau brechu torfol BIP AB fel rhoddwr brechlyn anghofrestredig, gan edrych ar y rôl fel mesur ataliol i osgoi ailadrodd ei phrofiad blaenorol. Er iddi gael profiad agos o rai o'r adegau gwaethaf, mae'n parhau i fod yn frwd ac yn optimistaidd ynglŷn â'r proffesiwn.

Rhoddodd Josanne aelodau ei theulu yn gyntaf gyda 17 mlynedd o gludo i'r ysgol. Ond nawr, gyda'u hanogaeth hwy, mae'n dechrau gwireddu ei huchelgais tymor hir o ddod yn nyrs.

NODDIR GAN  
ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

# Gwobr Nyrs Gofrestredig (Oedolion)



**KATE HARPER**

Uwch Nyrs Atal Heintiau,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan



**EMILY JOHN**

Nyrs Glinigol Arbenigol  
Trawsblaniad Mêr Esgyrn,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro



Mae Kate yn uwch nyrs ar gyfer rheoli heintiau a oedd yn allweddol mewn cefnogi gwasanaethau iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (MHLD) yn ystod y pandemig.

Mae atal a rheoli heintiau wedi cael sylw sylweddol ers mis Mawrth 2020, ond nid yw bob amser wedi bod ar flaen y gad mewn ymarfer iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Roedd angen dysgu a newidiadau sylweddol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP AB).

Sicrhaodd Kate lwybrau ac amgylcheddau gwaith diogel i gleifion, staff a pherthnasau, gan wneud cyfraniad rhagorol i well gofal cleifion. Anogodd staff i ddatblygu cynlluniau gofal unigol ar gyfer rheoli heintiau, a oedd yn berthnasol mewn amgylchedd arbenigol a oedd yn gofyn am ffyrdd sensitif o ddiogelu.

Gan gymryd amser i ddeall sut mae gwasanaethau'n gweithredu a pha heriau sy'n cael eu hwynebu, gweithredodd Kate ganllawiau atal heintiau a gyfieithwyd yn benodol ar gyfer gwasanaethau MHLD. Ymwelodd ag ardaloedd clinigol a'u hadolygu gyda thimau staff.

Cyflwynodd Kate hyfforddiant mewn arferion atal heintiau newydd, gan gynnwys gwisgo a thynnu ymaith (donning and doffing). Archwiliodd wasanaethau i sicrhau bod theori'n cael ei weithredu, a rhoddodd adborth adeiladol.

Pan oedd cleifion yn profi'n bositif, cynigiodd Kate gefnogaeth a darparu gofal unigol i sicrhau nad oedd trosglwyddiad yn digwydd, gan arwain at reoli achosion yn llwyddiannus.

Mae Emily wedi dangos diwydrwydd, amlddoniau ac anhunanoldeb trwy gydol y pandemig, gan weithio mewn ward hematoleg brysur, ward brysbennu 4-gwely COVID-19, tîm trawsblaniad mêr esgyrn, yn gweithio i sicrhau dyfais sganiwr y bledren, a gwirfoddoli amser i grŵp 'nibble and natter' er mwyn codi ysbryd.

Ar ôl dechrau'r pandemig fel nyrs staff band 5 ar ward hematoleg, cafodd Emily ei dyrchafu i fand 6 a'i symud i ward brysbennu COVID-19, gan ofalu am gleifion â chyflyrau hematolegol. Casglodd ddata am dderbyniadau cleifion a monitro cynnydd, a oedd yn gymorth i lwyio'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Nododd Emily yr angen am ddyfais sganiwr y bledren, gan sylwi bod cleifion yn dioddef heb un. Cysylltodd â gweithgynhyrchwyr a chydweithiodd â staff, cyn cyflwyno'r cais yn ffurfiol i dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth.

Gan roi ystyriaeth i'r gwasanaeth hematoleg cyn ei hanghenion ei hun, gwirfoddolodd Emily am rôl yr oedd ei hangen ar frys yn y tîm trawsblaniad mêr esgyrn. Roedd hyn yn golygu llai o dâl a gadael ward oedd yn agos at ei chalon.

Hefyd rhoddodd o'i hamser ei hun i'r grŵp hematoleg 'nibble and natter', gan ymweld â chleifion, cynnig cacennau cartref, diodydd, cefnogaeth, a'u hannog i wneud galwadau fideo i aelodau teulu na allai ymweld.

Yng ngeiriau un cydweithiwr, "Mae Emily yn glod i'r proffesiwn nyrsio."



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

RHAGLEN GWOBRAU 2021

NODDIR GAN  
**FWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS**



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES  
Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board

# Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru



## SAMANTHA EVANS

Rheolwr Ward,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



## ABIGAIL HOLMES

Bydwraig Ymgynghorol, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Gwnaeth Samantha wahaniaeth mawr drwy helpu cleifion COVID-19 yn uniongyrchol i brofi diwedd oes mwy urddasol. Hefyd, gwnaeth i staff nyrsio deimlo eu bod yn cael eu clywed yn ystod cyfnod o bwysau eithriadol.

Roedd ton gyntaf y pandemig yn dechrau pan ymunodd Sam ag ysbyty Treforys, gan ddod â chynlluniau ar gyfer Pwysedd Llwybr Aer Cadarnhaol Parhaus (CPAP) a drafodwyd yn ei rôl flaenorol gyda hi, a rhannu gwybodaeth i helpu staff i ddefnyddio'r peiriant CPAP. Math o gymorth anadlu anfewnwithiol yw CPAP a ddefnyddir i geisio osgoi cymorth anadlu mecanyddol mewnwithiol.

Mewn digwyddiad 'dysgu gan COVID-19' yn yr ysbyty, Sam a'i chydweithiwr oedd yr unig nyrsys a oedd yn bresennol. Fe wnaethant ddisgrifio canlyniadau gwael cleifion, gan gynnwys tair stori emosiynol am gleifion a gafodd ddiwedd oes anurddasol. Gan nad oedd timau meddygol yn aml yn bresennol ar y cam hwn, roedd hyn yn helpu i wneud i nyrsys deimlo eu bod yn cael eu clywed.

Yna datblygodd Sam gynllun ar gyfer pob claf sy'n cychwyn ar CPAP i gael eu meddyginiaethau diwedd oes wedi'u hysgrifennu ar flaen siart cyffuriau, gan ganiatáu i nyrsys gynnal eu hurddas

Mae ymroddiad diwyd ac egni diddiwedd Sam wedi cyffwrdd â llawer o fywydau drwy gydol y pandemig.

Mae Abi yn arweinydd llawn ysbrydoliaeth ac yn aelod rhagorol o'r tîm amlbroffesiwn. Mae'n angerddol ynglŷn ag iechyd menywod ac yn arwain, arloesi ac ymdrechu i ddatblygu gwasanaethau mamolaeth ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yn ystod y pandemig cefnogodd Abi y defnydd o dechnoleg rithwir. Gwreiddiodd y newidiadau mewn ymarfer mewn modd arbenigol, sicrhodd bod ymgysylltiad staff yn cael ei gynnal, a bod newidiadau mewn canllawiau yn cael eu gweithredu.

Mae Abi yn cefnogi pobl sy'n gwneud dewisiadau anodd ar gyfer man geni, ac yn creu cynlluniau gofal diogel a phriodol. Mae'n rheoli gwasanaeth 'ôl-feddyliau geni' lle gall defnyddwyr gwasanaeth drafod eu gofal a gwneud cynlluniau ar gyfer yr enedigaeth nesaf.

Asesir themâu a thueddiadau i sicrhau bod lleisiau menywod yn cael eu clywed, a bod canlyniadau genedigaeth cadarnhaol yn cael eu cyflawni ym mhob dull geni.

Ei menter arloesol diweddaraf yw rhaglen 'actif ar gyfer beichiogrwydd a genedigaeth' dan arweiniad bydwragedd. Gan ddefnyddio ei hyfforddiant helaeth sy'n arbenigo mewn iechyd menywod, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar iechyd y pelfis ac yn defnyddio dull cyfannol i gefnogi menywod yn ystod eu bywyd pob dydd.

Yn ddiweddar, ysgrifennodd Abi bennod ar gyfer MAYES' Midwifery. Mae'n aelod o bwyllgor datblygu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yn dyst arbenigol, ac yn hyfforddwr personol cymwys sy'n arbenigo mewn iechyd menywod

NODDIR GAN  
BRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU, LLYWODRAETH CYMRU



# Gwobr Arloesi a Digideiddio mewn Nyrsio



**RICHARD HELLYAR**

Darlithydd mewn Nyrsio Oedolion,  
Prifysgol Caerdydd



**SUZANNE DAVIES**

Nyrs Glinigol Arbenigol  
Rheumatoleg,  
Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Hywel Dda



Creodd Ricky Hellyar, darlithydd mewn Nyrsio Oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd, gyfres o bodlediadau gan ddenu dilynwyr yn rhyngwladol.

Wedi'i ddatblygu'n wreiddiol fel offeryn addysgol ar gyfer nyrsys cyn-gofrestru, esblygodd y podlediadau i fod yn ffynhonnell ddysgu amgen i lyfrau a chyfryngau digidol eraill.

Ynghyd ag academyddion a thechnolegwyr eraill, dechreuodd Ricky dyfu ffynhonnell o straeon cyfoethog y gellid eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac arwyddbostio gwasanaethau gofal iechyd a chefnogaeth.

Ganwyd y podlediad 'Behind the Health Statistic'.

Yn ogystal â chael ei ddefnyddio o fewn y radd Baglor mewn Nyrsio, yn ystod y pandemig daeth yn amlwg y gallai'r podlediadau gael effaith llawer ehangach. Felly fe'u gwnaed ar gael i'r cyhoedd ar blatfformau megis Spotify, Apple Podcasts a Google Play.

Mae trafodaethau'r podlediad wedi archwilio cyflyrau sy'n cynnwys anorecsia, cancer mewn plentyndod, covid hir, epilepsi a thrawsblaniadau. Mae adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr a chlinigwyr wedi cynorthwyo i gymeradwyo ei ddilysrwydd fel offeryn addysgol.

Mae cyfweleion wedi mynegi ymdeimlad o rymusiad trwy gymryd rhan ac mae Ricky wedi derbyn gohebiaeth yn mynegi sut mae'r podlediadau wedi bod yn gysur, a hyd yn oed wedi cymell pobl i fynd i'r afael â materion iechyd. Mae'r podlediad wedi'i lawrlwytho 3,150 o weithiau o 44 o wledydd.

Trawsnewidiodd Suzanne fynediad cleifion at gyngor rheumatoleg arbenigol mewn ymateb i'r pandemig, gan ddatblygu system ddigidol newydd ac arloesol i gynyddu cynhyrchiant.

Gohiriwyd pob apwyntiad cleifion allanol nad oedd yn fater brys ym mis Mawrth 2020. Addunedodd Suzanne i arloesi gyda mynediad cleifion o bell, gan sefydlu cyfeiriad e-bost pwrpasol i gleifion gysylltu â hi'n uniongyrchol, yn ychwanegol at y llinell ffôn a oedd eisoes yn bodoli.

Manteisiodd ar y cyfle i eirioli hunanreolaeth cleifion trwy gynnwys hyperddolenni i sefydliadau cefnogi cenedlaethol yn ei llofnod e-bost, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth COVID-19 ynglŷn â gwarchod a brechu. Roedd cyfleuster hefyd i gasglu adborth cleifion trwy ddolen arall.

Cynyddodd cynhyrchiant oherwydd llai o gysylltiadau ffôn ac amser a gollwyd trwy alw cleifion yn ôl.

Fel hyrwyddwr digidol o fewn y bwrdd iechyd, cydweithiodd Suzanne â'r pennaeth gwybodeg i ddatblygu'r trawsnewid ymhellach.

Gyda chaniatâd penodol, integreiddiodd Suzanne gyfeiriadau e-bost wrth baratoi ar gyfer cyflwyno platfformau ymgynghori rhithwir. Ymgysylltodd yn llawn â'r holl randdeiliaid cyn i brosiect peilot ddechrau, a chroesawyd y trawsnewid gan bawb.

Erbyn hyn, gall Suzanne reoli llwybrau cleifion yn effeithlon a brysbennu cleifion y gellir eu rheoli o bell, a chleifion sydd angen asesiad clinigol wyneb yn wyneb, gan ddileu teithio ar gyfer ymgynghoriadau byr.



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

NODDIR GAN  
**FRONTIER MEDICAL GROUP**



RHAGLEN GWOBRAU 2021

# Gwobr Cefnogi Gwelliant Trwy Ymchwil



**EMMA WILLIAMS**

Rheolwr Uned Treialon Hematoleg,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



**ANNA ROYNON-REED**

Uwch Arweinydd Tîm,  
Canolfan Ymchwil Glinigol -  
Tîm Cyflenwi, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin Bevan



Mae Emma yn arweinydd nysio ysbrydoledig yn y grŵp ymchwil clinigol hematoleg (CRG). Mae wedi sefydlu diwylliant ymchwil cadarnhaol ac wedi galluogi pob math o ganserau hematolegol i gael portffolio iach a chytbwys o dreialon.

Mae anogaeth Emma i gydweithwyr fuddsoddi mewn prosiectau ymchwil yn golygu bod gan gleifion fwy o siawns o gael mynediad at driniaethau newydd ar gyfer eu cyflyrau.

Mae hi wedi tyfu ei thîm o staff yn llwyddiannus, gyda'r canlyniad bod ei nysys yn cael eu cydnabod fel un o'r tri recriwtiwr uchaf ar gyfer astudiaeth FIGARO yn y DU. Arweiniodd hyn at benodi nys ymchwil trawsblaniad mēr esgryn i'r tîm, a arweiniodd wedyn at ddyfarnu statws wedi'i ariannu gan IMPACT.

Mae Emma wedi cymell ei thîm o staff ymchwil i gynyddu nifer yr astudiaethau a gynigir i gleifion, ac mae'n arbennig o awyddus i adeiladu portffolio o astudiaethau a arweinir gan nysys i ysbrydoli mwy o nysys i arwain ym maes ymchwil.

Mae hi hefyd wedi gwneud gradd meistr ym Mhrifysgol Caerdydd ac wedi dod yn un o'r prif ymchwilwyr nysio cenedlaethol cyntaf ar gyfer treial clinigol arloesol sy'n canolbwyntio ar ansawdd bywyd.

Mae angerdd ac ymroddiad Emma i ymchwil yn cael ei adlewyrchu yn ei gweithgarwch codi arian ar gyfer Blood Cancer UK a Leukemia Care.

Trawsnewidiodd Anna weithrediad tîm cyflenwi ymchwil Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP AB) yn ystod COVID-19, gan reoli galw uwch a galluogi cleifion i gymryd rhan mewn treialon clinigol.

Mae Anna yn arweinydd ymchwil medrus iawn ac mae wedi amlinellu gweledigaeth glir i ddatblygu ymchwil glinigol o fewn GIG Cymru a thu hwnt.

Roedd treialon ymchwil yn aml yn gymhleth ac yn ddeinamig yn ystod y pandemig, gyda thystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg yn rheolaidd. Roedd gan Anna bob amser wybodaeth gyfoes am y newidiadau diweddaraf ac yn tywys ei thîm yn rhwydd.

Ar anterth y pandemig, arweiniodd Anna mewn modd arbenigol wrth ddarparu treialon, megis treial Astra-Zeneca, gan reoli'r holl weithwyr yn unol â pholisi a chanllawiau ar warchod a chadw pellter. Roedd hyn yn arbennig o heriol mewn ardal waith fechan.

Cyflwynodd weithio penwythnos i ddiwallu'r anghenion cynyddol, a gosod ei hun ar alwad yn barhaol fel y byddai uwch aelod o'r tîm ar gael bob amser. Byddai'n ymweld ag ysbytai ar benwythnosau i helpu clinigwyr i recriwtio, cydsynio a darparu ymyriadau i gleifion.

Mae Anna wedi bod yn ganolog i symudiad y tîm cyflenwi ymchwil i ardal newydd, lle gellir cynnig ymyriadau newydd i gleifion nad oedd yn bosibl o'r blaen. Ei nod yw bod BIP AB yn gallu cynnig treialon clinigol ym mhob maes clefyd.

NODDIR GAN  
**PRIFYSGOL CAERDYDD**



# Gwobr Gofal Unigolion Hŷn



## CLARE BROOM

Ymarferydd Nyrsio Uwch,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



## JOANNE HOOK

Uwch Nyrs,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan



Roedd Clare yn allweddol mewn cynllunio a gweithredu gwasanaeth gwell ar gyfer yr un ar ddeg o gartrefi gofal yng nghlwstwr gofal sylfaenol De Cynon.

Ers ei phenodi'n ymarferydd nyrsio uwch yn 2020, mae ei sgiliau asesu clinigol a'i dealltwriaeth drylwyr o eiddilwch wedi arwain at fuddion mesuradwy ledled y rhanbarth. Mae'n gwybod yr effaith y mae eiddilwch yn ei chael ar leihau'r gallu i gyflawni gweithgareddau rheolaidd yn annibynnol trwy salwch corfforol neu feddyliol.

Roedd angen brys i gryfhau cynllunio gofal ymlaen llaw ar draws y cartrefi gofal. Mae Clare wedi cyflawni'n gryf, gan gysylltu ag arbenigwyr nyrsio clinigol cynllunio gofal ymlaen llaw i helpu i uwchsgilio a grymuso staff cartrefi gofal wrth weithredu newidiadau ystyrlon.

Wedi'u gweithredu ym mis Chwefror 2021, mae'r gwelliannau gwasanaeth newydd yn cynnwys gwneud diagnosis a thrin cyflyrau na chawsant eu diagnosisio o'r blaen, system newydd ar gyfer rheoli meddyginiaethau, a system newydd ar gyfer rheoli cyflyrau cronig.

Mae Clare yn dangos sgiliau nyrsio rhagorol fel mater o drefn, gan gynnwys cyd-drafod, arweinyddiaeth a'r gallu i weithio ar y cyd. Ei hathroniaeth yw gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr mewn modd cyd-gynhyrchiol i ddiwallu anghenion unigolion hŷn. Gwnaeth ei heiriolaeth dros unigolion hŷn argraff ar banel y gwobrau yn ogystal â pha mor ostyngedig y mae ei gwaith yn gwneud iddi deimlo.

Creodd Joanne raglen o weithgarwch rhwng cenedlaethau i godi calon ar anterth y pandemig, gan ddod â chleifion oeddrannus yn yr ysbyty Sirol a phlant o Ysgol Gynradd New Inn at ei gilydd.

Sylwodd Joanne ar yr effaith yr oedd ynysu cymdeithasol yn ei chael ar les seicolegol cleifion mewnol yn yr ysbyty Sirol. Effeithiwyd yn arbennig ar gleifion oeddrannus oherwydd bod angen mwy o ofal arnynt, roedd cyfyngiadau ar ymwelwyr, a gallent gael anawsterau cyfathrebu drwy PPE.

Ond gwnaeth ei phlant ifanc ei hun ei helpu i ddeall nad oedd ynysu cymdeithasol yn her yr oedd y boblogaeth hŷn yn ei hwynebu ar ei phen ei hun.

Gan weithio o fewn y cyfyngiadau COVID-19 oedd mewn grym ar y pryd, roedd rhaglen Joanne yn cynnwys llythyrau, fideos, lluniau a phrosiectau i gefnogi dementia, megis prosiect gardd. Aliniodd ddeilliannau allweddol i'r cyfeiriad polisi a adlewyrchir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd yn fodd i dynnu sylw cleifion, gan gynyddu eu cymhelliant ac arwain at well ymgysylltiad â rhaglenni adsefydlu. Cafwyd effaith gadarnhaol hefyd ar staff yr ysbyty, staff yr ysgol a phlant yr ysgol.

Mae Joanne wedi bod yn flaenllaw yn y fenter gymunedol arloesol hon. Mae ei brwdfrydedd wedi helpu i ysbrydoli, sefydlu a pharhau â'r rhaglen. Gwnaeth ei hangerdd argraff ar banel y gwobrau yn ogystal â sut mae'n ymdrechu i ddod â llawenydd i fywydau'r bobl hŷn.



NODDIR GAN  
BRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT



# GWOBR NYRS Y FLWYDDYN CYMRU 2021

## Gwobr Nyrs y Flwyddyn Cymru 2021

Gwobr Nyrs y Flwyddyn Cymru yw'r clod uchaf yn y seremoni heno. Mae'r wobr yn cydnabod rhagoriaeth mewn ymarfer proffesiynol ac arweinyddiaeth ragorol. Bydd yr enillydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus i wella gofal cleifion yng Nghymru ac wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu arloesedd ym maes nyrsio. Trwy ei chyflawniadau/gyflawniadau, bydd yr enillydd wedi chwarae rhan sylweddol mewn gwella enw da'r proffesiwn nyrsio.

### Meini Prawf ar gyfer y Wobr:

- Mae'n rhaid i Nyrs y Flwyddyn Cymru fod wedi dangos rhagoriaeth yn ei maes/faes.
- Bernir bod ei chyfraniad/gyfraniad i'r gymuned nyrsio a gofal iechyd y wlad yn arwyddocaol.
- Rhaid i'r enillydd fod yn fodel rôl ysbrydoledig ar gyfer y gymuned nyrsio a gofal iechyd.

**Mae'r holl ymgeiswyr ar gyfer Gwobrau Nyrs y Flwyddyn 2021 RCN Cymru wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ofal cleifion yn eu maes ymarfer ac wedi dangos rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio yng Nghymru. Mae pob enwebai ac enillydd categori yn amlwg yn nyrsys llawn angerdd, sy'n mynd yr ail filltir i ddarparu'r gofal a'r gwasanaethau gorau y gallant, gan fod yn arloesol a chreadigol a hynny weithiau mewn amgylchiadau anodd iawn.**

## ENILLWYR GWOBR NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU

**ENILLYDD 2012: LOUISE POLEY** Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Camddefnydd Sylweddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**ENILLYDD 2013: RUTH OWENS** Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**ENILLYDD 2014:**

**VERONICA JARMAN** Prif Nyrs Ysbyty Dydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**ENILLYDD 2015: CLAIRE HARRIS** Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**ENILLYDD 2016 SIAN THOMAS**

Nyrs Ymgynghorol (Iechyd Plant), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**ENILLYDD 2017: LOUISE WALBY**

Hwylusydd Nyrsio Anadlol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**ENILLYDD 2018: EVE LIGHTFOOT** Nyrs Atal Heintiau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**ENILLYDD 2019: JEAN SAUNDERS MBE**

Nyrs Arweiniol Ceisiwr Lloches, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

NODDIR GAN  
YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre  
Velindre University  
NHS Trust

RHAGLEN GWOBRAU 2021



# GWOBR NYRS Y FLWYDDYN CYMRU 2021



## ENILLYDD

**KIRSTY JOHN** Prif Nyrs, CEM Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Mae'n bleser gennym ddyfarnu teitl Nyrs y Flwyddyn 2021 RCN Cymru i Kirsty John, enillydd teilwng iawn ac yn esiampl a llysgennad i'r proffesiwn nyrsio.**

Gwnaeth agwedd 'gallaf wneud' Kirsty argraff fawr ar banel Nyrs y Flwyddyn 2021 RCN Cymru. Mae ganddi'r cryfder a'r ysgogiad i ail-siapio gofal iechyd mewn lleoliad carchar ac mae ei hyder, ei hangerdd a'i charisma i'w weld yn glir yn ei gwaith.

• Mae Kirsty yn gweithio mewn adran sydd wedi'i hymddireithrio a'i thanariannu ym maes Gofal Sylfaenol; fodd bynnag, mae wedi mynnu sylw i'r adran carchardai, gan gymryd camau breision i wella'n sylweddol y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir gan y gofal a'r gwasanaethau a hefyd i rannu'r gwaith gwyth hwn a'r canlyniadau yn eang er mwyn codi safonau ar draws y sector.

• Mae Kirsty wedi cyflawni cymaint o fewn lleoliad carchar, yn arbennig yn ystod y pandemig. Mae nyrsio mewn lleoliad o'r fath yn brofiad heriol, ac mae gan nifer o garcharorion ystod o gyflyrau iechyd, a gymhlethir gan risg COVID. Mae ei dull wedi sefyll allan fel un arloesol, tosturiol ac mae hefyd wedi canolbwyntio ar wella'n sylweddol gyfraddau brechu o fewn y grŵp cleientiaid hwn.

• Mae siwrnai bersonol Kirsty yn un llawn ysbrydoliaeth. Penderfynodd ail-hyfforddi fel nyrs ar ôl bod yn swyddog carchar, gan ymroi wedyn i nyrsio yn y sector carchardai. Mae ei brwdfrydedd a'i hymroddiad i godi safonau a gwella bywydau, iechyd a lles rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac ar y cyrion sydd ag anghenion iechyd heriol a chymhleth iawn yn wych ac i'w ganmol yn fawr.



*"Mae derbyn y wobr hon yn gyfle ardderchog i dynnu sylw at nyrsio mewn carchardai. Gall nyrsio mewn carchardai yn aml fod wedi'i guddio tu ôl i furiau a bydd yn rhyfeddol i allu taflu goleuni ar yr holl waith rhagorol sy'n digwydd mewn amgylchedd diogel, yn gweithio gyda rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas."*

**Wrth sôn am lwyddiant Kirsty, dywedodd Helen Whyley, Cyfarwyddwr, RCN Cymru:**  
*"Mae Kirsty John, Nyrs y Flwyddyn 2021 RCN Cymru, wedi ymroi i sicrhau lefelau uchel o ofal ag urddas ar gyfer cleifion o fewn lleoliad carchar. Mae'n llawn angerdd ynglŷn â ffyrdd i wella bywydau pobl sydd yn ei gofal, drwy ddarparu gwasanaeth mewn modd arloesol. Nid dim ond ar atal y mae Kirsty yn canolbwyntio, nid dim ond gadw pobl yn iach a diogel pan fyddant yn y carchar, ond hefyd ar wella iechyd yn yr hirdymor. Roedd ei hymroddiad a'i phroffesiynoldeb, ynghyd â'i hangerdd ar gyfer ei rôl yn amlwg. Mae'n unigolyn i'w hedmygu ac yn enillydd teilwng Gwobr Nyrs y Flwyddyn 2021."*

# LLONGYFARCHIADAU

## ROLL CALL FOR ALL THE SHORTLISTED CANDIDATES FOR THE RCN WALES NURSE OF THE YEAR AWARDS 2021

**HANNAH ARMAH OFOE** Cwm Taf Morgannwg University Health Board  
**FRANCES BEADLE** Digital Health and Care Wales  
**ANNETTE BEASLEY** Cardiff and Vale University Health Board  
**AWET BELAY WOLDEGEORGES** Cardiff University  
**REBECCA BICKNELL** Hywel Dda University Health Board  
**PAULA BIDDER** Swansea Bay University Health Board  
**AMY BOND AND EMMA MILLS** Aneurin Bevan University Health Board  
**NIA BOUGHTON** Betsi Cadwaladr University Health Board  
**KATHRYN BOURDEAUX** Cardiff and Vale University Health Board  
**LINDA BRAYSHAY** Betsi Cadwaladr University Health Board  
**CHRISTINE BROOKES** Hywel Dda University Health Board  
**SIAN BROOKES** Cardiff and Vale University Health Board  
**CLARE BROOM** Cwm Taf Morgannwg University Health Board  
**CLAIRE BRYANT** Hywel Dda University Health Board  
**DEBORAH BURCHELL** Cardiff and Vale University Health Board  
**SIMON CASSIDY** Health, Education and Improvement Wales (HEIW)  
**STEPHEN CLARKE** Welsh Ambulance Services NHS Trust  
**LISA COCKROFT** Hywel Dda University Health Board  
**SHARON COLEMAN** Cwm Taf Morgannwg University Health Board  
**CHRISTINE COTTRELL** Swansea Bay University Health Board  
**JANELLE COURTNEY** Aneurin Bevan University Health Board  
**ASHLEY CROCKETT-LYNCH** Cardiff and Vale University Health Board  
**HELEN CROSBIE AND ROCHELLE WALTERS** Aneurin Bevan University Health Board  
**JOSANNE CULLEN** University of South Wales  
**SUZANNE DAVIES** Hywel Dda University Health Board  
**WENDY DURY** Cwm Taf Morgannwg University Health Board  
**SAMANTHA EVANS** Swansea Bay University Health Board  
**TRACEY EVANS AND CLAIR HERMON** Aneurin Bevan University Health Board  
**KATHERINE FISCHER-JENKINS** Cardiff and Vale University Health Board  
**GAYNOR GOUGH AND MICHELLE STAPLE** Cwm Taf Morgannwg University Health Board  
**KATE HARPER** Aneurin Bevan University Health Board  
**RICHARD HELLYAR** Cardiff University  
**AMANDA HOLLAND AND DR LORRAINE JOOMUN** Cardiff University  
**ABIGAIL HOLMES** Cardiff and Vale University Health Board  
**JESSICA HOLMES AND HELEN WHALLEY** Cardiff and Vale University Health Board  
**JOANNE HOOK** Aneurin Bevan University Health Board  
**VERONIQUE HUGHES** Aneurin Bevan University Health Board  
**LINDA HUGHES-JONES** Cardiff and Vale University Health Board  
**BETSAN IFANS** Hywel Dda University Health Board  
**SALLY IRVING** Powys Teaching Health Board  
**KAY ISAACS** Hywel Dda University Health Board  
**TRACY JAMES** Aneurin Bevan University Health Board  
**EMILY JOHN** Cardiff and Vale University Health Board  
**KIRSTY JOHN** Cardiff and Vale University Health Board

# LLONGYFARCHIADAU

## ENWAU'R HOLL YMGEISWYR AR RESTRAU BYR AR GYFER GWOBRAU NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU 2021

**ANWEN JONES** Hywel Dda University Health Board  
**GLENNA JONES** Hywel Dda University Health Board  
**SARAH KINGDOM-MILLS** Hywel Dda University Health Board  
**PENNY LAMB** Hywel Dda University Health Board  
**BETHAN LEWIS** Public Health Wales  
**RHIAN MATHIAS** Hywel Dda University Health Board  
**CLAIRE McCARTHY** Aneurin Bevan University Health Board  
**NATALIE McCULLOCH** Cardiff and Vale University Health Board  
**REBECCA McDONALD** Hywel Dda University Health Board  
**PENNY MCILQUHAM** Aneurin Bevan University Health Board  
**TRACY MEREDITH** Cardiff and Vale University Health Board  
**KAREN MILLS** Cardiff and Vale University Health Board  
**SUSAN MOGFORD** Cardiff and Vale University Health Board  
**KATE MORGAN** Aneurin Bevan University Health Board  
**JACQUELINE MORGAN AND MATTHEW THORNTON** Cwm Taf Morgannwg University Health Board and University of South Wales  
**EMMA MURDOCH** Cardiff and Vale University Health Board  
**DAWN PARRY** Aneurin Bevan University Health Board  
**JODIE PARRY** Swansea Bay University Health Board  
**LEAH PENNY** Cardiff and Vale University Health Board  
**HAYLEY PHILLIPS** NHS Wales Health Collaborative  
**CHERIE PIECKO** Hywel Dda University Health Board  
**CONNOR RAWLINSON** Cardiff University  
**DIANE REES** Velindre University NHS Trust  
**SUE REES BEM** Hywel Dda University Health Board  
**SARAH REES AND PAULA STRONG** Cardiff and Vale University Health Board  
**JUDY ROGERS** Cardiff and Vale University Health Board  
**ANNA ROYNON-REED** Aneurin Bevan University Health Board  
**ALISON RYLAND** Aneurin Bevan University Health Board  
**JENNY SPREAFICO** Powys Teaching Health Board  
**SARAH TERRETT** Cwm Taf Morgannwg University Health Board  
**LAURA TRUSCOTT-WRIGHT** Cardiff and Vale University Health Board  
**CHARLOTTE WALKER** Welsh Ambulance Services NHS Trust  
**CAROLINE WHITTAKER RRC OstJ** Public Health Wales  
**EMMA WILLIAMS** Cardiff and Vale University Health Board  
**LOUISE WILLIAMS** Cardiff and Vale University Health Board  
**SHARON WILLIAMS** Improvement Cymru, Public Health Wales  
**VENETIA YARR** Cardiff and Vale University Health Board



ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES  
**NURSE OF THE YEAR**  
AWARDS

RHAGLEN GWOBRAU 2021